

justfair

Cyflwyniad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol

CESCR - 7^{fed} Adolygiad y Deyrnas Unedig
Cyflwyniad Gweithgor cyn sesiwn ar ran
cymdeithas sifil yng Nghymru a Lloegr

Cyflwyniad

- Mae'r cyflwyniad hwn yn cael ei wneud ar ran unigolion a grwpiau cymdeithas sifil yng Nghymru a Lloegr sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar a /neu wedi cymryd rhan mewn gweminarau meithrin gallu mewn ymateb i [alwad am dystiolaeth](#) a drefnwyd gan [Just Fair](#). Elusen yn y Deyrnas Unedig ydy Just Fair gydag arbenigedd penodol mewn hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Nod Just Fair yw cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hawliau hyn; annog llywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus y Deyrnas Unedig i barchu, gwarchod a chyflawni'r hawliau hyn; a chefnogi unigolion a grwpiau i eiriol dros eu hawliau. Cymerodd Just Fair ran yn chweched adolygiad cyfnodol y Deyrnas Unedig yn 2016, gan gydlynu [adroddiad cyfochrog](#) yn seiliedig ar gyfraniadau a chefnogaeth nifer fawr o sefydliadau cymdeithas sifil. Mae'r gwaith o baratoi'r cyflwyniad grŵp hwn ar gyfer seithfed adolygiad cyfnodol y Deyrnas Unedig wedi ei gyllido gan y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#), y Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws A ar gyfer Cymru a Lloegr, a Chorff Cydraddoldeb Cenedlaethol Prydain. Mae'r Comisiwn yn gweithio i rymuso cymdeithas sifil i ddal y llywodraeth i gyfrif am ei rhwymedigaethau hawliau dynol drwy gefnogi ymgysylltiad â phrosesau adolygu'r cytuniad. Mae cydlofnodwyr y cyflwyniad hwn wedi eu nodi yn Atodiad 1. Mae'r rhain yn cynnwys yr unigolion a grwpiau sydd wedi cyflwyno tystiolaeth, Just Fair a sefydliadau sydd wedi cymeradwyo'r cyflwyniad.
- Mae'r cyflwyniad yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd dros 70 wedi cymryd rhan yn y broses o gasglu tystiolaeth a gynhaliwyd rhwng mis Awst a mis Medi 2022. Maen nhw'n gweithio ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud â hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyfranogwyr yn cynnwys mudiadau bach ar lawr gwlad yn ogystal ag elusennau mwy a chyrrff anllywodraethol sy'n gweithio gyda'r rhai sydd â phrofiad bywyd o dorri hawliau. Darparwyd tystiolaeth hefyd gan unigolion â phrofiad bywyd o'r materion a godwyd ganddynt. Mae rhestr o'r cyfranogwyr ar gael yn Atodiad 2 gyda hyperddolenni at y dystiolaeth a gyflwynwyd lle cafodd ei chyflwyno'n ysgrifenedig a'i chyhoeddi'n gyhoeddus. Mae'r cyfranogwyr a gyflwynodd gyflwyniadau llafar hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 2 gyda dyfyniadau o rai o'r cyflwyniadau llafar hyn wedi eu nodi yn Atodiad 3 lle cafwyd caniatâd gan yr unigolyn i wneud hynny. Mae cyfeiriadau at y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cael eu dangos drwy gydol drwy gyfeirio at rif cyflwyno'r ddogfen yn Atodiad 2 a hyperddolen i'r cyflwyniad ysgrifenedig perthnasol lle bo hynny'n berthnasol. Anogir y Pwyllgor yn gryf i ddarllen y dystiolaeth a gyflwynwyd yn llawn.
- Pwrpas y cyflwyniad hwn yw helpu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (y Pwyllgor) i nodi'r meysydd sy'n haeddu archwiliad manwl ac esboniad pellach gan y Wladwriaeth sy'n Barti fel rhan o'r adolygiad sylweddol o gydymffurfiaid Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliannol y Deyrnas Unedig. Trefnir y cyflwyniad yn thematig yn ôl hawliau yn y Cyfamod ac yn unol â Chanllawiau Adrodd Cyffredinol CESCR ar gyfer Cyrff Anllywodraethol sy'n cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig i'r gweithgor cyn sesiwn. Mae'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig yn adlewyrchu'r termau a ddefnyddir yn y dystiolaeth a gyflwynwyd. Mae hyn o reidrwydd yn golygu bod amrywiaeth o dermau'n cael eu defnyddio. Ni fwriedir i'r cyflwyniad fod yn gofnod cynhwysfawr o'r holl achosion posibl o dorri hawliau, na phryderon yng Nghymru a Lloegr ers yr adolygiad diwethaf. Felly, os oes mater heb ei gynnwys ni ddylid ei ddehongli fel bod y mater wedi ei ddatrys o reidrwydd neu fel arall yng Nghymru a Lloegr.

Mynediad at hawliau a chydraddoldeb

(erthygl 2)

4. Mae'r cyd-destun ar gyfer hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar gyfnod o gynydd ariannol, wedi ei ddilyn gan bandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw parhaus. Roedd hefyd yn cyd-daro â'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'r ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd cysylltiedig. Mae'r digwyddiadau neu'r argyfyngau hyn yn cyflwyno heriau ar wahân a chronnus ar gyfer diogelu'r hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, tra bo'r grwpiau penodol a amlygwyd yn y cyflwyniad hwn wedi dwyn baich pob un ohonynt. Mae polisi macroeconomaidd, gan gynnwys ar drethi, yn effeithio ar fwynhau'r hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru a Lloegr ac yn codi cwestiynau ynghylch a yw'r Wladwriaeth sy'n Barti yn sicrhau bod cymaint o adnoddau ag sydd ar gael yn cael eu defnyddio i sicrhau'n raddol bod yr hawliau'n cael eu gwireddu'n llawn. Yn benodol, mae nifer o ddiwygiadau y gellid bod wedi eu gwneud i'r system dreth (ac y gellid eu gwneud o hyd) er mwyn trethu cyfoeth yn fwy effeithiol. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi nodi natur atchweliadol sawl diwygiad i system dreth y Deyrnas Unedig ac mae wedi argymhell y dylai'r Wladwriaeth sy'n Barti gymryd camau i sicrhau bod ei pholisïau yn 'ddigonol, yn flaengar ac yn gyfiawn yn gymdeithasol' (Sylwadau Terfynol, 6ed Adolygiad Cyfnodol y Deyrnas Unedig, paragraff 16). Yn yr un modd, argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Wladwriaeth sy'n Barti 'wella'r broses o gasglu trethi er mwyn cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i roi'r hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar waith', 'cymryd mesurau llym i fynd i'r afael â chamddefnyddio'r gyfundrefn dreth, yn enwedig gan gorfforaethau ac unigolion sydd â gwerth net uchel' a 'chynyddu ei hymdrechion, ar y cyd â'i Thiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron, er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio'r gyfundrefn dreth yn fyd-eang' (Sylwadau Terfynol, 6ed Adolygiad Cyfnodol y Deyrnas Unedig, paragraff 17). Gofynnir cwestiynau ynghylch y graddau y mae'r Wladwriaeth sy'n Barti wedi gweithredu ar yr argymhellion hyn gan y Pwyllgor ([Cyflwyniad 43](#), t. 2-3).
5. Er bod y Deyrnas Unedig wedi cael ei hannog i ymgorffori hawliau'r Cyfamod o fewn y gorchymyn cyfreithiol domestig gyda mynediad at rwymedïau, nid yw wedi gwneud hynny, ond mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu ymgorffori'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol o fewn ei hawdurdodaeth ddatganoledig. Er gwaethaf anogaeth gan y Pwyllgor i gadarnhau'r Protocol Dewisol, mae'r Wladwriaeth sy'n Barti yn teimlo nad yw manteision y Protocol yn glir. Mae'r Wladwriaeth sy'n Barti yn datgan ei bod yn credu bod 'cyfreithiau domestig effeithiol eisoes yn bodoli lle gall unigolion geisio rhwymedïau gorfodadwy os yw eu hawliau wedi cael eu torri. Mae'n bosibl i unigolyn herio unrhyw benderfyniad gan y llywodraeth yn y llysoedd domestig os yw eu hawliau wedi cael eu torri' (Adroddiad y Wladwriaeth sy'n Barti), paragraff 179). Mae dyfarniad y Goruchaf Lys yn 2021 yn mynd yn groes i hynny yn [R \(SC and Ors\) v Secretary of State for Work & Pensions \[2021\] UKSC 26](#) sy'n datgan yn benodol nad oes modd gorfodi rhwymedigaethau rhyngwladol anghorfforedig yn y llysoedd domestig ([Cyflwyniad 32](#), t. 1).
6. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dod â'r [Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#) yn adran 1 o [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#) i rym. Byddai [Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol orfodadwy](#) ar draws y Deyrnas Unedig yn gam pwysig ymlaen o ran sicrhau hawliau'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol pobl yn y Deyrnas Unedig. Byddai'n darparu sylfaen gref ar gyfer cymdeithas decach ([Cyflwyniad 22](#), t. 2) y tu hwnt i ymarfer ticio blychau fel yr honnir gan y Wladwriaeth sy'n Barti (SPR, para 38). Yn benodol, mae llywodraethau datganoledig Cymru a'r Alban wedi dod ag adran 1 i rym, sy'n golygu bod yn rhaid i rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r Alban ystyried sut y gall eu penderfyniadau strategol, fel gosod amcanion polisi a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, wella cydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

7. Yng Nghymru, ers i'r trefniadau datganoli ddod i rym ym 1999, mae gan Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru reolaeth dros lawer o feysydd polisi a deddfwriaeth sy'n effeithio ar y ffordd mae pobl yn profi eu hawliau o dan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, ac er gwaethaf gwneud cynnydd cadarnhaol mae meysydd pryder yn dal i fodoli. At hynny, hyd yn oed mewn meysydd lle mae cyflawni'r hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, o dan y trefniadau datganoli, yn dal i fod dan reolaeth sefydliadau Llywodraeth Cymru i raddau helaeth, nid yw hyn yn cael gwared ar gyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau ei chydymffurfiad â'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Felly, anogir y Pwyllgor i sicrhau, pan fydd argymhellion yn cael eu gwneud, ei bod yn glir, mewn perthynas â'r hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig drin yr argymhellion hynny yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfer Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru yn ogystal â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinidogion y Deyrnas Unedig.
8. Mae'r dirwedd hawliau eang yn y Deyrnas Unedig yn berthnasol er mwyn deall y cyd-destun y mae gwarchodaeth yr hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol am weithredu ynddo. Mae Dominic Raab, yr Ysgrifennydd Cyfiawnder presennol, wedi [datgan](#) yn y gorffennol nad yw'n credu mewn hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, ac mae Suella Braverman, yr Ysgrifennydd Cartref presennol, wedi [datgan](#) yn gyhoeddus ei bod yn dymuno gweld y Deyrnas Unedig yn tynnu'n ôl o'r Confensiwn Ewropeaidd

ar Hawliau Dynol. Mewn perthynas â [Deddf Hawliau Dynol 1998](#) codwyd cwestiynau ynghylch digonolrwydd y broses ymgynghori ar gynigion i ddisodli'r Ddeddf honno, diffyg parch at [ganfyddiadau](#) y [panel Adolygu'r Ddeddf Hawliau Dynol](#) annibynnol a diffyg ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig ([Cyflwyniad 10](#), t. 2-3). Mae Bil Hawliau arfaethedig, a fydd yn disodli'r Ddeddf Hawliau Dynol, yn dileu hawliau yn ymarferol ([Cyflwyniad 36](#)). Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, deallir y bydd Bil y Bil Hawliau yn dychwelyd i Senedd y Deyrnas Unedig yn ystod yr wythnosau nesaf. O'r herwydd, mae ofn y bydd hawliau yn cymryd cam sylweddol yn ôl yn y Deyrnas Unedig ac mae cyd-destun ehangach yr ofnau hyn o reidrwydd yn cynnwys pryderon am ddiogelu'r hawliau'r economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Cwestiynau Arfaethedig:

- Eglurwch pa gamau, os o gwbl, sydd wedi cael eu cymryd i ddiwygio'r system dreth er mwyn ei gwneud yn fwy digonol, blaengar a chyfiawn yn gymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â threthu cyfoeth yn fwy effeithiol.
- Eglurwch pam nad oes camau wedi eu cymryd i ddechrau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o dan adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y gellir ei gorfodi gan unigolion yng Nghymru, a pham nad oes unrhyw gamau wedi eu cymryd i roi'r ddyletswydd ar waith ar draws y Wladwriaeth sy'n Barti.
- Yng ngoleuni'r pryderon a godwyd ynghylch atchweliad hawliau, rhwch fanylion sut y bydd hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn cael eu diogelu a'u gwella gan Fil y Bil Hawliau arfaethedig.

Gwaith (erthygl 6, 7, 8)

9. Mae diweithdra'n parhau i effeithio'n anghymesur ar unigolion a grwpiau difreintiedig ac sydd ar y cyrion o ganlyniad i bolisi a diffyg gweithredu Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu nad yw'r hawl i weithio wedi ei diogelu'n ddigonol. Er enghraifft:
- Mae pobl sy'n ceisio lloches yn cael eu gwahardd i bob pwrpas rhag gweithio

tra bod eu cais yn cael ei brosesu sy'n eu rhoi dan bwysau ariannol difrifol a gallai gynyddu'r risg o gamfanteisio arnynt, ([Cyflwyniad 41](#)) gan gynnwys, caethwasiaeth fodern ([Cyflwyniad 17](#), t. 2).

- Mae pobl sy'n ceisio lloches yn dod ar draws rhwystrau penodol o ran cael mynediad at yr hawl i weithio. Er enghraifft, yn Lloegr,

codir ffioedd am ddsbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill, a fyddai'n eu helpu i integreiddio a'u gallu i weithio (os/pan ganiateir hynny), sy'n atal pobl rhag cofrestru ar gyfer dosbarthiadau am dros chwe mis ac ar ôl hynny maen nhw'n cael eu sybsideiddio'n rhannol. O'i gymharu â hynny, yng Nghymru a'r Alban mae darpariaeth yn rhad ac am ddim o'r adeg maen nhw'n cyrraedd ([Cyflwyniad 39](#), t. 1).

- c. Mae cymunedau Du yn dod ar draws rhwystrau hiliol a dosbarth cymdeithasol mewn cyflogaeth ([Cyflwyniad 38](#), t. 2 a 7). Mae cyfran y boblogaeth Ddu sy'n ddi-waith yn ddwbl y cyfartaledd cenedlaethol, sef 8%, ac mae ffactorau fel pandemig Covid-19 wedi gwaethygu hyn. Roedd diweithdra ymysg pobl ifanc Du yn 41.6%, dair gwaith yn uwch na diweithdra ymysg pobl ifanc gwyn yn ystod y pandemig ([Cyflwyniad 38](#), t. 7). Dylid nodi pwysigrwydd data wedi eu dadgyfuno gan eu bod yn datgelu cyfraddau cyflogaeth/anghyflogaeth amrywiol ar gyfer gwahanol grwpiau a gall gwahaniaethu croestoriadol gael ei guddio yn absenoldeb dadansoddi data ([Cyflwyniad 37](#), t. 2).
- d. Mae mynediad i waith hefyd yn cynnwys mynediad i hunangyflogaeth lwyddiannus. Dywedir bod entrepreneuriaid Du (a hyd yn oed mwy o ferched Du) yn dod ar draws hiliaeth wrth sefydlu busnesau ([Cyflwyniad 38](#), t. 2 a 8) ac yn llai tebygol o gael cymorth ariannol ac anariannol ([Cyflwyniad 37](#), t. 2 a [Chyflwyniad 38](#), t. 2 a 8).
- e. Dywedodd 63% o'r ymatebwyr i'r [Arolwg o Fwyddau Traws](#) eu bod wedi dod ar draws trawsffobia wrth chwilio am waith ac roedd hyn yn codi i 73% ymhlith ymatebwyr Du a Chroenliw a 69% o bobl anabl yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt ([Cyflwyniad 6](#), t. 2).
- f. Nid oedd 50% o'r ymatebwyr i Arolwg Mawr Anabledd Panel Pobl Anabl Manceinion Fwyaf 2022 mewn cyflogaeth ([Cyflwyniad 23](#), Prif Ganfyddiadau). Yn ogystal â hynny, dydy'r mesurau y mae'r Wladwriaeth sy'n Barti yn honni ei bod wedi eu mabwysiadu i gefnogi pobl anabl i 'gychwyn, aros a llwyddo mewn cyflogaeth' (SPR, paragraff 51) ddim yn ddigonol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu difrifol yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd ([Cyflwyniad 34](#), t. 2). Yn 2017, dim ond 5.8%

o bobl ag anabledd dysgu yn Lloegr oedd mewn cyflogaeth am dâl (nid yw'r ystadegyn hwn yn gwahanu anableddau dysgu ysgafn, cymedrol a difrifol neu ddwys sy'n golygu y gallai'r ffigwr cyffredinol hwn guddio mwy o anghydraddoldeb) ([Cyflwyniad 34](#), t. 2).

- g. Gall ffactorau cysylltiedig gael effaith negyddol ar fwynhau'r hawl i weithio. Er enghraifft, mewn perthynas â diogelwch personol, mae ymchwil wedi canfod bod 16% o fenywod ifanc wedi methu â gwneud cais am swydd, wedi gwrthod swydd neu wedi gadael swydd am nad oedd y daith i'r gwaith ac yn ôl yn ddiogel. Cynyddodd hyn i 24% ar gyfer menywod ifanc sy'n anabl neu sydd â chyflwr iechyd hirdymor ([Cyflwyniad 16](#)).
10. Nid oes digon o gynnydd wedi ei wneud o ran cymryd pob cam priodol i warantu hawliau llafur gweithwyr yn llawn yn y gyfraith ac yn ymarferol mewn perthynas ag amodau gwaith teg a ffafriol. Tynnir sylw at gyflogau isel a nifer annigonol o oriau fel prif ysgogwyr tloidi mewn gwaith ([Cyflwyniad 22](#), t. 9). Mae materion sy'n ymwneud â gwaith teilwng ac amodau gwaith diogel yn cynnwys:
- a. Er bod y Wladwriaeth sy'n Barti yn datgan mai dim ond 3% o'r gweithlu a gynrychiolir gan unigolion ar gontractau dim oriau (SPR, paragraff 60), mae trefniadau cyflogaeth ansicr yn dal i fodoli, gan gynnwys y defnydd o gontractau dim oriau, gyda graddau'r defnydd ohonynt yn amrywio yn ôl sector. Er enghraifft, mae ffigurau diweddar yn dangos bod 26.4% o bobl sy'n gweithio yn y diwydiant llety a bwyd a 20.2% o'r bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gwneud hynny o dan gontract dim oriau ([Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)), sy'n tynnu sylw unwaith eto at berthnasedd archwilio data wedi eu dadgyfuno fel bod modd deall darlun mwy cywir o anghydraddoldebau. Mae'r defnydd o gontractau dim oriau a diffyg oriau penodol neu sicr yn gallu golygu nad yw'n bosibl i weithwyr brofi incwm rheolaidd sy'n effeithio ar eu gallu i sicrhau cytundebau rhent a chontractau ffôn symudol er enghraifft ([Cyflwyniad 40](#), t.2). Tynnir sylw at anghydraddoldebau pellach gyda gweithwyr Du, er enghraifft, yn anghymesur fwy tebygol o weithio dan gontract dim oriau nag unrhyw grŵp ethnig arall ([Cyflwyniad 38](#), t. 7).

- b. Dywedir bod gwaith sy'n talu'n isel ([Cyflwyniad 22](#), t. 1) gydag oriau hir a sawl swydd yn gyffredin ([Cyflwyniad 40](#), t. 2). Mae [Sefydliad Joseph Rowntree](#) yn nodi bod 1 o bob 5 gweithiwr ar dâl isel yn dweud eu bod yn awyddus i weithio mwy o oriau nag y gallant ddod o hyd iddynt, sydd dair gwaith yn uwch na chyfradd y gweithwyr ar dâl uwch (hefyd [Cyflwyniad 22](#), t. 10).
- c. Diffyg cydymffurfiaid â gwarchodaeth iechyd a diogelwch. Er enghraifft, ddim yn darparu amseroedd egwyl sylfaenol ([Cyflwyniad 40](#), t. 1) ac, yn ystod y pandemig, honiadau nad oedd polisiau a gweithdrefnau Covid-19 yn cael eu dilyn, gan roi iechyd a sefyllfa ariannol gweithwyr mewn perygl ([Cyflwyniad 26](#), t.2 a [Chyflwyniad 40](#), t. 1). Cymhlethir hyn gan bryderon sydd wedi eu hamlinellu ym mharagraff 11.a.iv isod ynghylch tangyllido'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- d. Mae mwy a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o arferion 'diswyddo ac ailgyflogi' lle mae cyflogwyr yn gorfodi gweithwyr i ailymgeisio am eu swyddi ar delerau ac amodau gwaeth ([Cyflwyniad 5](#), t. 6) neu arferion 'diswyddo a disodli' lle mae gweithwyr yn colli eu swyddi ac yn cael eu disodli gan weithwyr ar delerau ac amodau is, gyda'r enghraifft amlycaf yn achos a oedd yn ymwneud â P&O Ferries ([Cyflwyniad 20.b](#), t. 2-8). Roedd arferion diswyddo ac ailgyflogi wedi effeithio'n anghymesur ar weithwyr ifanc yn ystod y pandemig, ac roedd bron ddwywaith yn fwy tebygol o effeithio ar weithwyr Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae canllawiau statudol ar yr arfer, a addawyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, heb eu cyhoeddi o hyd ([Cyflwyniad 5](#), t. 6).
11. Mae cyflogau isel yn gyffredin ac nid ydynt yn sicrhau safon byw dderbyniol ac mae hynny'n arwain at dlodi mewn gwaith:
- a. Mae materion sy'n ymwneud â'r isafswm cyflog yn cynnwys:
- i. Nid yw'r gyfradd fesul awr yn ddigon uchel i sicrhau o leiaf safon byw dderbyniol ([Cyflwyniad 22](#), t. 6). Er gwaethaf ei enw, nid yw'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn gyflog byw gwirioneddol gan nad yw'n adlewyrchu costau byw gwirioneddol ([Cyflwyniad 22](#), t. 6 a [Chyflwyniad 40](#), t. 2). Y Cyflog Byw Cenedlaethol yw'r isafswm cyfreithiol ar gyfer pobl dros 23 oed. Telir yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i bobl ifanc o dan 23 oed. Mae'r cynnydd o 6.6% yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r cynnydd o 10% yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn 2022 yn cynrychioli colledion cyflog mewn termau real o ystyried y ffaith bod chwyddiant yn 10.1% ym mis Medi 2022 a chwyddiant bwyd yn 14.8% ([Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)). Ystyrir bod y polisi o ddefnyddio isafswm cyflog is ar gyfer gweithwyr iau yn annheg o ystyried y ffaith nad yw eu costau byw – er enghraifft rhent, cyfleustodau a chostau bwyd – yn is oherwydd eu hoed ([Cyflwyniad 40](#), t. 2).
- ii. Diffyg cydymffurfiaid â'r isafswm cyflog ac anawsterau gorfodi'r isafswm cyflog ar gyfer gweithwyr ([Cyflwyniad 5](#), t. 1-5 a [Chyflwyniad 40](#), t. 1).
- iii. Nid yw gweithwyr bob amser yn cael eu talu am bob un o'r oriau maen nhw'n eu gweithio; er enghraifft, mae'r ffaith nad yw gweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol yn cael eu talu am eu hamser teithio yn parhau i fod yn broblem. Nid yw'r mesur a fabwysiadwyd gan y Wladwriaeth sy'n Barti i roi slipiau cyflog i weithwyr yn ddigon i ddarparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddeall a yw eu cyflog wedi ei gyfrifo'n gywir ac felly mae'n rhwystr i weithwyr orfodi eu hawliau pan nad ydynt wedi cael digon o dâl. Mae diffyg tryloywder cyflog digonol hefyd yn rhwystr i gyrff gorfodi, gyda'r corff gorfodi statudol Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn datgan bod diffyg eglurder a threfniadau annigonol o ran cadw cofnodion am isafswm cyflog yn ei atal rhag cymryd camau gweithredu ([Cyflwyniad 5](#), t. 1-5).
- iv. Dywedir bod gweithwyr yn ofn codi materion ynghylch eu hamodau gwaith a'u hawliau. Mae toriadau ariannol i gyrff fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi, sy'n gyfrifol am orfodi hawliau llafur safonol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a'r isafswm cyflog, yn tanseilio'r gwaith o ddiogelu hawliau yn ymarferol ([Cyflwyniad 40](#), t. 1).

- b. Mae cyflogau anghyfartal yn parhau, yn enwedig mewn perthynas â bylchau cyflog rhwng y rhywiau, bylchau sy'n seiliedig ar ethnigrwydd, ac ar gyfer gweithwyr sy'n Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, a gweithwyr anabl. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymysg yr holl weithwyr ar gyfer 2022 yn 14.9% ([Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)). Er gwaethaf bwlch cyflog o 17% rhwng graddedigion gwrywaidd Du a graddedigion gwrywaidd Gwyn, nid oes yn rhaid cyhoeddi data cyflog sy'n seiliedig ar ethnigrwydd ([Cyflwyniad 38](#), t. 7). Mae ymateb y Wladwriaeth sy'n Barti i ymgynghoriad ym mis Ionawr 2019 ar adrodd ynghylch y bwlch cyflog sy'n seiliedig ar ethnigrwydd heb ei gyhoeddi o hyd ([Cyflwyniad 38](#), t. 10). Mae'r bwlch cyflog ar gyfer Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol tua 16%, sy'n cyfateb i weithwyr o'r fath yn ennill £6,700 y flwyddyn yn llai ar gyfartaledd na gweithwyr nad ydynt yn rhan o'r grŵp hwnnw ([YouGov, 2019](#)). Mae gweithwyr anabl yn ennill £2.05 yr awr yn llai na gweithwyr nad ydynt yn anabl, ac mae'r bwlch yn ehangu. Mae'r bwlch cyflog hwn o 17.2% yn 2021/22 yn cyfateb i weithwyr anabl yn ennill £3,731 y flwyddyn yn llai ar gyfartaledd na gweithwyr nad ydynt yn anabl ([TUC](#)).
12. Mae gwahaniaethu yn y gwaith a'r ffaith bod rhai gweithwyr yn agored i achosion o dorri eu hawliau yn parhau, gan gynnwys, yn benodol:
- a. Mewn perthynas â gweithwyr mudol, gan gynnwys gweithwyr mudol domestig, anogwyd y Wladwriaeth sy'n Barti i sicrhau bod pob gweithiwr o'r fath yn mwynhau'r un amodau ac amddiffyniad â gweithwyr eraill, yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o gamfanteisio a cham-drin, ac yn gwella dulliau cwyno ac archwilio yn ogystal â chymorth cyfreithiol (Sylwadau Terfynol, 6ed Adolygiad Cyfnodol y Deyrnas Unedig, paragraff 35). Er ein bod yn croesawu sylwadau'r Wladwriaeth sy'n Barti (STRR, paragraff 68 a 69) fod y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu ar gael i roi cyngor a bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i greu un corff gorfodi i ddiogelu 'gweithwyr agored i niwed' yn well, dylid nodi nad yw cyngor nac 'ymrwymiad' yn sicrhau bod eu hawliau'n cael eu gorfodi yn ymarferol.
- b. Camddefnyddio cymalau ad-dalu gan gyflogwyr mewn perthynas â gweithwyr mudol lle mae'n rhaid ad-dalu costau hyfforddiant ac addysg os ydyn nhw'n gadael eu swydd: gall hyn olygu bod gweithwyr yn wynebu bygythiadau a chamfanteisio yn absenoldeb hawliau gorfodadwy yn ymwneud â recriwtio rhyngwladol ([Cyflwyniad 5](#), t. 6).
- c. Diffyg cynrychiolaeth gan bobl Ddu mewn swyddi uwch ([Cyflwyniad 38](#), t. 7).
- d. Lefelau uchel o drawsffobia yn cael eu cofnodi gan gydweithwyr, gydag 80% o'r bobl anneuaidd a oedd wedi ymateb i'r Arolwg o Fywydau Traws yn adrodd am drawsffobia yn y gwaith a 73% o ddyinion Traws a 73% o fenywod Traws wedi cael profiad o drawsffobia. Cynyddodd hyn i 88% ar gyfer pobl ddu a chroenliw ([Cyflwyniad 6](#), t. 2).
13. Nid yw honiad y Wladwriaeth sy'n Barti (SPR, paragraff 75) bod y driniaeth o undebau llafur yn cydymffurfio â chonfensiynau rhyngwladol a bod hawliau undebau llafur yn cael eu diogelu'n ddigonol i sicrhau bod gweithwyr yn mwynhau hawliau undebau llafur heb gyfyngiadau gormodol nac ymyrraeth yn gywir:
- a. Tynnir sylw'r Pwyllgor at y pryderon niferus a godwyd gan Bwyllgor Arbenigwyr y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ynghylch achosion o dorri hawliau gan y Deyrnas Unedig, gan gynnwys achosion heb eu datrys o dorri Confensiwn 87 y Sefydliad hwnnw sy'n dyddio'n ôl i 1989 ([Cyflwyniad 20a](#), t. 3-5). Mae'r Wladwriaeth sy'n Barti wedi ailddatgan ei hymrwymiad i gydymffurfio â Chonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol a gadarnhawyd gan y Deyrnas Unedig dan delerau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig (erthygl 399(2) a (5)) heb fynd i'r afael â'r achosion o dorri hawliau sydd heb eu datrys ([Cyflwyniad 20a](#), t. 3). Canfuwyd hefyd bod y Deyrnas Unedig wedi torri 10 o'r 13 dyletswydd sy'n ymwneud â hawliau llafur yn y Siarter Gymdeithasol Ewropeaidd a archwiliwyd gan y Pwyllgor Hawliau Cymdeithasol Ewropeaidd pan gafodd ei hasesu ddiwethaf yn 2019 ([Cyflwyniad 20a](#), t. 6-7). Ac ystyried diffyg cydymffurfriad ymddangosiadol y Wladwriaeth sy'n Barti â nifer o rwymedigaethau cyfraith ryngwladol,

mae cwestiynau'n codi ynghylch sut y gall y Deyrnas Unedig gydymffurfio â rhwymedigaethau'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol dan yr amgylchiadau.

- b. Mae honiad y Wladwriaeth sy'n Barti (SPR, paragraff 75) bod gan bob gweithiwr yr hawl i ymuno ag undeb llafur a chael ei gynrychioli gan yr undeb hwnnw wrth gydfargeinio â chyflogwyr hefyd yn cael ei herio ar y sail nad oes hawl gyfreithiol i gael cynrychiolaeth gan undeb llafur wrth gydfargeinio ac eithrio drwy weithdrefn gydnabod statudol ddiffygiol ([Cyflwyniad 20a](#), t. 7-11).
- c. Argymhellodd y Pwyllgor yn ei Sylwadau Terfynol yn 6ed Adolygiad y Wladwriaeth sy'n Barti (paragraff 39) y dylid cynnal adolygiad trylwyr o Ddeddf Undebau Llafur 2016. Nid yw arbenigwyr yn y maes yn ymwybodol bod unrhyw adolygiad yn cael ei gynnal ([Cyflwyniad 20a](#), t. 11). Ar ben hynny, mae cyfyngiadau cyfreithiol newydd ar undebau llafur wedi cael eu mabwysiadu ers y 6ed Adolygiad:
- i. Cyflwynwyd deddfwriaeth i ddileu'r gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn lle gweithwyr sy'n streicio, sy'n torri rhwymedigaethau cyfreithiol rhyngwladol. Mae hyn yn cael ei herio'n gyfreithiol gan undebau llafur y Deyrnas Unedig, a chyflwynodd Cyngres yr Undebau Llafur gŵyn i Bwyllgor Arbenigwyr y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ([Cyflwyniad 5](#), t. 8 a [Chyflwyniad 20a](#), t. 13).
 - ii. Gwnaed atebolrwydd undebau llafur am weithredu diwydiannol anghyfreithlon bedair gwaith yn fwy; roedd hyn yn rhywbeth a gyflwynwyd heb ymgynghori ac ychydig iawn o graffu gan Senedd y Deyrnas Unedig ([Cyflwyniad 20a](#), t. 14).
 - iii. Mae cyfyngiadau arfaethedig hefyd ar yr hawl i streicio mewn perthynas â gofynion gwasanaeth sylfaenol ([Cyflwyniad 20a](#), t. 16). Ym mis Hydref 2022 cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y [Bil Streiciau Cludiant \(Lefelau Gwasanaeth Sylfaenol\)](#) sydd wedi ei [ddisgrifio](#) gan Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur fel rhywbeth sy'n tanseilio'r hawl i streicio ac sy'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig.
- d. Nid oes amddiffyniad digonol yn erbyn disgyblu a thriniaeth annheg nad yw'n arwain at ddiswyddo gweithwyr streicio, gan ymyrryd â'u hawl i streicio ([Cyflwyniad 20a](#), t. 15 a [Chyflwyniad 5](#), t. 7).
- e. Dywedir bod dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran undebau llafur yn wahanol i ddull Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn benodol, mae gweithio mewn partneriaeth yn cael ei nodi fel enghraifft o ymateb cadarnhaol a fabwysiadwyd adeg pandemig Covid-19 ([UNSAIN](#), t. 5). Tynnwyd sylw at ymdrechion Llywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd lleisiau gweithwyr ac undebau llafur wrth lunio polisiau drwy ddatgymhwysio rhannau o Ddeddf Undebau Llafur 2016 y Deyrnas Unedig drwy Ddeddf Undebau Llafur 2017 Cymru fel rhai sydd mewn perygl o gael eu tanseilio gan ddulliau gweithredu Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel y rhai a nodir uchod sy'n ymwneud â defnyddio gweithwyr asiantaeth yn lle gweithwyr sy'n streicio ([UNSAIN](#), t. 9).
14. Mewn perthynas â Hawliau Dynol a Busnes mae'r Pwyllgor wedi argymhell yn y gorffennol y dylai'r Wladwriaeth sy'n Barti sefydlu fframwaith rheoleiddio clir ar gyfer cwmnïau i sicrhau nad yw eu gweithgareddau'n cael effaith negyddol ar fwynhau'r hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, a mabwysiadu mesurau deddfwriaethol a gweinyddol i sicrhau atebolrwydd cyfreithiol am dorri hawliau (Sylwadau Terfynol, 6ed Adolygiad Cyfnodol y Deyrnas Unedig, paragraff 12 (a) a (b)). Er bod y Wladwriaeth sy'n Barti yn honni (SPR, paragraff 9) mai'r Deyrnas Unedig oedd aelod-wladwriaeth gyntaf y Cenhedloedd Unedig i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i roi Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol a Busnes ar waith, a gafodd eu diweddarau yn 2016, nid ydynt yn orfodol. Nid oeddent ychwaith yn ddigonol i fynd i'r afael â'r materion a gododd yn achos uchel ei broffil P&O Ferries, sy'n codi cwestiynau ynghylch diffyg unioni ac atebolrwydd ([Cyflwyniad 20b](#), t. 2-8). Nid oedd gofyniad cyfreithiol i gyfarwyddwyr ystyried buddiannau eu cyflogeion ac effaith gweithrediadau'r cwmni ar gymuned wedi atal P&O Ferries rhag

herio'r gyfraith (fel y mae wedi derbyn ei wneud yn gyhoeddus gerbron [Pwyllgor Trafnidiaeth a Phwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Tŷ'r Cyffredin](#)) drwy ddiswyddo 786 o gyflogeion yn ddiseremoni, gan dorri cydgytundebau a dyletswyddau statudol i hysbysu ac ymgynghori â chynrychiolwyr gweithwyr ([Cyflwyniad 20.b](#), t. 3 a 8).

Cwestiynau Arfaethedig:

- a. Eglurwch sut mae'r Wladwriaeth sy'n Barti yn mynd i'r afael â mater 'diswyddo ac ailgyflogi' neu 'diswyddo a disodli', gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd i wneud y canlynol: (a) monitro'r arfer, (b) atal yr arfer, (c) gan gyfeirio'n benodol at 'Achos P&O', er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto?
- b. A fydddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran creu un corff gorfodi i ddiogelu 'gweithwyr agored i niwed' yn well. Yn benodol, rhwch fanylion y camau a gymerwyd i ddod â hyn i rym ac i flaenoriaethu camau i ddiogelu hawliau gweithwyr 'agored i niwed' fel y'u gelwir.
- c. A yw'r Wladwriaeth sy'n Barti yn ymwybodol o fater camddefnyddio cymalau ad-dalu gan gyflogwyr mewn perthynas â gweithwyr mudol ac os felly, pa gamau sydd wedi cael eu cymryd neu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater a sicrhau bod hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y gweithwyr hyn yn cael eu diogelu?
- d. Pa gamau mae'r Wladwriaeth sy'n Barti yn eu cymryd i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i sicrhau nad oes gwahaniaethu ar gyfer pob grŵp lleiafrifol a bod cynrychiolaeth ar lefel uwch ac mewn hunangyflogaeth?
- e. Nodwch pa gamau sydd wedi cael eu cymryd i:
 - i. Hyrwyddo a sicrhau cyflog byw gwirioneddol i bob gweithiwr ar draws y Wladwriaeth sy'n Barti, gan gynnwys ymdrechion i ddiogelu hawliau cydfargeinio gweithwyr yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol.
 - ii. Gorfodi camau i ddiogelu'r isafswm cyflog presennol yn ymarferol, gan gynnwys cael gwared ar y rhwystrau i'w orfodi a amlinellir uchod.
- f. Esboniwch yr anghysondeb ymddangosiadol rhwng honiad y Wladwriaeth sy'n Barti ei bod yn cydymffurfio â chonfensiynau rhyngwladol mewn perthynas â hawliau undebau llafur a'r canfyddiadau sy'n dangos nad yw'r Wladwriaeth sy'n Barti yn cydymffurfio â safonau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol a'r Siarter Gymdeithasol Ewropeaidd.
- g. Pa fesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau y dylai fod yn ofynnol i gwmnïau gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy o hawliau dynol ar draws eu gweithrediadau a'u cadwyni gwerth i atal torri'r hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol?

Nawdd cymdeithasol (erthygl 9)

15. Nid yw'r ddarpariaeth nawdd cymdeithasol yn ddigonol: o ran y ffaith nad yw'r lefel sylfaenol yn ddigon i ddiwallu anghenion hanfodol ([Cyflwyniad 4](#), t. 1 a [Chyflwyniad 26](#), t. 2) a'r methiant i uwchraddio'r ddarpariaeth i fod yr un fath â chwyddiant a'r cynnydd mewn costau byw ([Cyflwyniad 2](#), t.3 a [Chyflwyniad 22](#), t. 8). Nid yw'r system bresennol yn diwallu anghenion pobl ac mae'n ysgogi cynnydd mewn tlodi ([Cyflwyniad 22](#), t. 7). Mae tystiolaeth yn awgrymu bod tlodi'n cael effaith anghymesur ar bobl anabl, menywod a phlant, a phobl hŷn (gweler, er enghraifft, cyflwyniadau [1](#), [2](#), [14](#), [22](#), [23](#), [26](#),

[28](#), [32](#), [40](#) a [42](#)). Ar ben hynny, mae cyfraddau tlodi grwpiau lleiafrifol Bangladeshaid (53%), Pacistanaid (48%) a Du (40%) yn sylweddol uwch o'u cymharu â phobl Gwyn (19%) ([Cyflwyniad 2](#), t. 2) sy'n arwain at ragor o gwestiynau am effeithiau gwahaniaethol posibl y polisi a'r ddarpariaeth nawdd cymdeithasol. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu y gallai nodweddion croestoriadol waethygu hyn, er enghraifft mae 40% o oedolion lleiafrifoedd ethnig anabl mewn tlodi o'i gymharu â 23% o oedolion Gwyn Prydeinig anabl ([Cyflwyniad 38](#), t. 3). Mae pobl hŷn o gymunedau Du ac Asiaidd tua

- dwywaith yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi na phasiynwyr gwyn ([Cyflwyniad 42](#), t. 3).
16. Nodir bod rhai newidiadau cadarnhaol cyfyngedig yn ystod pandemig Covid-19 fel codiad o £20 yr wythnos mewn taliadau Credyd Cynhwysol, ond nid yw hyn wedi parhau ([Cyflwyniad 29](#), t. 3). Disgwylir i'r gostyngiad mewn tlodi plant o ganlyniad i'r cymorth hwn yn ystod y pandemig, sy'n dangos bod hawdd cymdeithasol yn effeithiol o ran mynd i'r afael â thlodi plant, gael ei wrthdroi yn sgil y toriadau i'r ddarpariaeth ac effeithiau'r argyfwng costau byw ([Cyflwyniad 32](#), t. 1). At hynny, nid oedd oddeutu 2,000,000 o hawlwr anabl gan mwyaf a oedd ar y cynllun budd-daliadau gwaddol blaenorol wedi derbyn yr arian hwn. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y llysoedd fel gwahaniaethu wedi ei gyfiawnhau. Ni ellid ei herio fel achos o dorri'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol o ystyried y methiant i ymgorffori'r Cyfamod mewn cyfraith ddomestig (*R (T) v. Secretary of State for Work and Pensions [2022] EWHC 351*) (sylwer fod y penderfyniad hwn yn destun apêl).
17. Mae pryderon ynghylch lefel cymorth nawdd cymdeithasol yn cael eu gwaethygu ymhellach yn sgil rhoi [cap ar fudd-daliadau](#) sydd wedi cael ei rewi ers 2016 er gwaethaf y cynnydd mewn costau byw a rhenti ([Cyflwyniad 29](#), t. 3). Er enghraifft, mae rhenti wedi codi 12% ar gyfartaledd ond mae'r budd-dal tai wedi aros ar lefel a bennwyd yn ôl data 2018-19. Roedd un o bob pedwar rhentwr ar ddechrau 2022 yn dibynnu ar fudd-dal tai, gyda dim ond un o bob wyth eiddo preifat a restrwyd yn y flwyddyn ddiwethaf yn fforddiadwy â lefelau budd-dal tai ([Cyflwyniad 29](#), t. 3). Mae diffyg tai fforddiadwy'n gadael pobl mewn perygl o wynebu dyled ac yn cael eu gadael mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt ddigon i ddiwallu anghenion hanfodol o ran bwyd, hylendid, tanwydd ac ynni sylfaenol, a chostau trafniadaeth. Mae'n arwain at lefelau tlodi sylweddol ac, mewn rhai achosion, amddifadrwydd gyda phobl yn dibynnu ar elusennau i fyw. Mae dau Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Dlodi Enbyd a Hawliau Dynol yn olynol wedi tynnu sylw at annigonolrwydd defnyddio elusennau yn lle bod Llywodraeth [y Deyrnas Unedig] yn cyflawni ei rhwymedigaethau hawliau ([Cyflwyniad 7b](#), t. 2).
18. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn mai gwaith yw'r llwybr allan o dlodi (SPR, paragraff 105). Nid yw'r dull polisi hwn yn ystyried y materion a nodir ym mharagraffau 10 ac 11 uchod sy'n ymwneud â chyflogau isel, trefniadau gwaith ansicr ac oriau annigonol ar gyfer gweithwyr yn ogystal â rhai grwpiau o weithwyr sydd naill ai'n methu gweithio neu ddim yn cael gweithio ([Cyflwyniad 4](#), t. 2). At hynny, mae tystiolaeth yn dangos bod tlodi mewn gwaith wedi cynyddu, gan godi o 13% o aelwydydd mewn gwaith mewn tlodi ym 1996-97 i 17% yn 2019-20 ([Cyflwyniad 22](#), t. 9). Yn ogystal â hynny, mae'r rhan fwyaf o blant sy'n byw mewn tlodi yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr yn dod o gartrefi sy'n gweithio ac mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi mewn gwaith wedi codi 91% ers 2014/15. Mae dau o bob pump o blant mewn teuluoedd 'gweithiwr allweddol' (gweithiwr hanfodol) yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr yn byw mewn tlodi, sef cynnydd o 34% dros ddwy flynedd ([Cyflwyniad 14](#), t. 2). Ar ben hynny, mae diffyg twf mewn enillion wedi golygu na fu lleihad o ran toriadau i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol mewn gwaith a wnaed gan y Wladwriaeth sy'n Barti dros y deng mlynedd diwethaf ([Cyflwyniad 14](#), t. 2).
19. Nodir materion sy'n ymwneud â gweithrediad y system nawdd cymdeithasol yn methu â chynnal yr hawl i nawdd cymdeithasol yn ddigonol, yn benodol:
- Nid oes digon o gapasiti i leihau'r oedi gweinyddol sy'n creu patrwm o ddyled a chaledi ([Cyflwyniad 4](#), t. 1).
 - Tynnir sylw at yr oedi o bum wythnos ar gyfer y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf fel mater penodol sy'n gwrthio pobl i ddyled ([Cyflwyniad 26](#), t. 3).
 - Mae angen mynediad at gyngor digonol a chynllun ymateb i argyfwng digonol gan nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer taliadau untro i helpu â chostau byw hanfodol yn ddim mwy na phlaster dros y mater ([Cyflwyniad 4](#), t. 2).
 - Mae'n ymddangos bod budd-daliadau anabled i bob pwrpas yn sybsideiddio'r budd-daliadau sylfaenol (sy'n annigonol) er mwyn talu costau cynhaliadaeth yn hytrach na thalu costau ychwanegol byw â nam ([Cyflwyniad 4](#), t. 1).

- e. Mae'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau yn teimlo bod stigma yn perthyn i'r profiad o ymwneud â'r system nawdd cymdeithasol a'i fod yn ddiurddas. Mae hawlwr yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu diraddio, yn anwraidd a bod y broses o wneud cais am fudd-daliadau yn 'erchyll' ([Cyflwyniad 22](#), t. 7 a [Chyflwyniad 26](#), t. 3).
- f. Er gwaethaf barn y Wladwriaeth sy'n Barti (SPR, paragraff 84 a 85) bod sancsiynau'n cael eu defnyddio pan nad yw hawlwr wedi bodloni un neu fwy o ofynion ei hawliad ac y cytunwyd ar y gofynion hynny a'u bod yn realistig ac yn gyraeddadwy, mae'r defnydd o sancsiynau yn dal yn destun pryder. Ystyrir bod sancsiynau'n greulon ([Cyflwyniad 40](#), t. 3) a'u bod yn dwysáu profiadau tloti ([Cyflwyniad 22](#), t. 7). Mae hyn yn codi cwestiynau am allu pobl i wireddu eu hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a byw eu bywydau gydag urddas.
- g. Nodwyd bod y ffaith nad yw Hyfforddwr Gwaith yn cael digon o hyfforddiant a'u bod yn cael eu gorymestyn yn arwain at gefnogaeth annigonol i 'hawlwr agored i niwed' yn benodol. Ar ben hynny, ystyrir bod natur darged y gwasanaeth yn arwain at alwadau afrealistig ac amhriodol ar hawlwr na allant eu cyflawni, gan arwain at berygl o sancsiynau ([Cyflwyniad 22](#), t. 4).
20. Mae pobl yn cael eu heithrio a/neu'n cael profiad o effeithiau gwahaniaethol wrth gael gafael ar gymorth:
- a. Mae [Dim hawl i gyllid cyhoeddus](#) yn amod mewnfudo a osodwyd ar unigolyn sy'n 'amodol ar reolaeth fewnfudo', fel y'i diffinnir yn adran 115 o [Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999](#). Mae'n golygu na all gael mynediad at y system nawdd cymdeithasol, mae'n rhaid talu i gael defnyddio gofal iechyd cyhoeddus, ac nid oes rhwyd ddiogelwch os bydd problemau fel diweithdra neu salwch tymor hir yn codi. Gall hyn arwain at amddifadedd ac ecsbloetiaeth. Gall statws mewnfudo gael ei golli yn sgil gwallau mewn ceisiadau neu anallu i dalu ffioedd adnewyddu, sy'n golygu nad yw pobl yn cael eu cofnodi. Tynnir sylw at effaith wahaniaethol y polisi - roedd 85% o'r ymgeiswyr y tynnwyd yr amod dim hawl i gyllid cyhoeddus oddi arnynt oherwydd amddifadedd yn fenywod, ac yn famau sengl gan fwyaf; ac mae 90% o'r bobl y mae'r amod dim hawl i gyllid cyhoeddus yn effeithio arnynt yn dod o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ([Cyflwyniad 18a](#), t. 5).
- b. Mae pobl heb eu cofnodi hefyd yn cael eu hatal i bob pwrpas rhag cael gafael ar arian cyhoeddus. Gall y rhain gynnwys plant a aned yn y Deyrnas Unedig ond i rieni sydd heb gael eu cofnodi. Yn ogystal â chael eu hatal rhag cael mynediad at nawdd cymdeithasol, mae pobl heb eu cofnodi yn cael eu hatal rhag gweithio a all arwain at amddifadedd a risg uchel o gamfanteisio ([Cyflwyniad 18a](#), t. 2).
- c. Nid oes yn rhaid i bobl sy'n ceisio lloches dalu am ofal iechyd oni bai eu bod yn [ddarostyngedig i'r amod dim hawl i gyllid cyhoeddus](#). Fodd bynnag, nid oes ganddynt hawl i gymorth nawdd cymdeithasol llawn. Mae'r cymhorthdal incwm maen nhw'n ei dderbyn yn annigonol. Gosodwyd y cymorth ar 70% o Gymhorthdal Incwm yn wreiddiol yn seiliedig ar y ffaith y byddai llety a chyfleustodau yn cael eu talu ar wahân. Yn 2015, cyflwynwyd cyfradd safonol ac ers hynny dim ond cynnydd bach iawn sydd wedi ei wneud, ac nid ydy hwnnw wedi ei fynegrifo. Y gyfradd ar hyn o bryd yw 53% o Gredyd Cynhwysol ar gyfer pobl dros 25 oed. Mae hyn yn cyfateb i £5.84 y dydd ar gyfer yr holl ofynion hanfodol (heb gynnwys tai na chyfleustodau). Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael 27% yn llai mewn termau real nag yn 2000 ([Cyflwyniad 41](#), t. 1).
- d. Er ei bod wedi ei bwriadu i fod yn ddarpariaeth dros dro, mae tystiolaeth yn awgrymu bod dros 70% o bobl yn aros dros 6 mis i rywun ymdrin â'u ceisiadau am loches ac felly yn derbyn y lefel annigonol hon o gymhorthdal incwm sy'n cael ei waethygu gan gyfyngiadau sylweddol ar yr hawl i weithio ([Cyflwyniad 41](#), t. 2).
- e. Mae digonolrwydd y cymorth i bobl hyn hefyd yn peri pryder. Mae materion fel pobl yn colli allan ar gymorth fel hawl i Gredyd Pensiwn, Disgownt Cartrefi Clyd a dim hawl i gael ad-daliad y Dreth Gyngor yn achosi caledi. Nid yw pensiynau wedi cadw i fyny â chwyddiant ([Cyflwyniad 42](#), t. 4).

- f. Mae pobl anabl yn dweud ei bod hi'n anodd iawn delio â'r system nawdd cymdeithasol, gyda 13% yn dweud ei bod yn 'amhosibl'. Mae diffyg hygyrchedd ac ymdeimlad o annhegwch yn y system a diffyg cyngor priodol ar gyfer pobl anabl yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol a'r gallu i wireddu hawliau ([Cyflwyniad 23](#), Prif Ganfyddiadau).
- g. Mae gweithwyr ar gyflogau isel, yn enwedig y rhai â threfniadau gwaith ansicr, yn wynebu caledi pan fyddant yn sâl. Mae Tâl Salwch Statudol yn daladwy o bedwerydd diwrnod y salwch (sy'n golygu na cheir tâl am y tri diwrnod cyntaf), nid yw'n 100% o'r cyflog a dyma'r isaf yn Ewrop ([Cyflwyniad 40](#), t. 3).
- h. Mae Tâl Mamolaeth Statudol a Lwfans Mamolaeth wedi eu gosod ar lefelau sy'n rhy isel i gynnal safon byw ddigonol ([Cyflwyniad 12](#), t. 1).
- i. Mae'r polisi o dalu Credyd Cynhwysol i ddim ond un aelod o'r aelwyd yn cael ei amlygu fel rhywbeth problematig, ac yn cael effaith benodol ar fenywod mewn achosion o gam-drin domestig (Cyflwyniad 56 a Chyflwyniad 64, Dyfyniadau 4 ac 8 Atodiad 3).

Cwestiynau Arfaethedig:

- a. Pam mae rhai grwpiau'n cael profiad o allgáu neu effeithiau gwahaniaethol wrth gael gafael ar gymorth nawdd cymdeithasol?
- b. Pam mae'r drefn sancsiynau'n dal i gael ei defnyddio er gwaethaf y dystiolaeth ei bod yn arwain at gynnydd mewn tlodi? Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod y drefn sancsiynau yn effeithiol o ran gostwng diweithdra?
- c. Eglurwch pa fesurau sydd ar waith i sicrhau hygyrchedd y system nawdd cymdeithasol ar gyfer hawlwyd, gan gynnwys pobl anabl a phobl hŷn yn benodol a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n ddigidol. Sut mae hygyrchedd yn cael ei fonitro a'i adolygu, a pha mor aml?
- d. A yw'r Wladwriaeth sy'n Barti yn monitro effaith tlodi mewn gwaith ar blant? Os felly, rhwch wybodaeth sy'n dangos sut y caiff yr effaith ei monitro a beth a wneir mewn ymateb i'r wybodaeth a geir drwy'r broses honno.

Bywyd teuluol (erthygl 10)

21. Nid yw'r cymorth a'r amddiffyniad ehangaf posibl yn cael ei roi i'r teulu gan y Wladwriaeth sy'n Barti. Mae'r materion penodol yn cynnwys:

- a. Mae diffyg gweithdrefn annibynnol ffurfiol ar gyfer pennu cenedligrwydd neu ddiffyg gwladwriaeth a rhwystrau i sicrhau cenedligrwydd fel ffioedd uchel a mynediad cyfyngedig at gymorth cyfreithiol yn golygu bod rhai plant sy'n cael eu geni yn y Deyrnas Unedig mewn mwy o berygl o fod heb wladwriaeth. Mae pryderon bod [Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022](#) yn cyfyngu ar y mesurau diogelu presennol sydd â'r nod o atal diffyg gwladwriaeth a'r risgiau sy'n gadael plant mewn limbo, gan gyfyngu ar eu gallu i gofrestru fel dinasyddion Prydeinig. Yn absenoldeb cenedligrwydd, mae effaith negyddol sylweddol ar y gallu i gael mynediad at hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a'u gwireddu

([Cyflwyniad 25](#), t. 2-3).

- b. Ychydig iawn o ffynonellau cymorth sydd gan deuluoedd sy'n ddarostyngedig i'r amod dim hawl i gyllid cyhoeddus ac sy'n wynebu amddifadedd. Nid yw'r cymorth sydd ar gael yn cael ei gyllido'n ddigonol i ddiwallu eu hanghenion ac mae'n anodd cael gafael arno - gwrthodwyd cymorth i 60% o deuluoedd ar gam ([Cyflwyniad 18a](#), t.13). Mae'r amddifadedd a brofir gan rai teuluoedd yn gallu arwain at ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys bygythiadau i fynd â phlant i ofal yr awdurdod lleol hyd yn oed pan nad oes unrhyw bryderon diogelu ar wahân i amddifadiad ([Cyflwyniad 18a](#), t.13).
- c. Lefelau tlodi plant. Mae un o bob pedwar plentyn yn tyfu i fyny mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig ([Cyflwyniad 32](#), t. 1). Yng Nghymru, mae'r ffigur hwn yn 34% o blant

- ([Plant yng Nghymru](#)). Nid yw'r cymorth i deuluoedd yn gysylltiedig â maint aelwydydd, sy'n golygu bod teuluoedd mawr yn cael llai o gefnogaeth yn gyfrannol. Adlewyrchir hyn yn y dystiolaeth bod tloidi ymysg teuluoedd gyda thri neu fwy o blant wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf ([Cyflwyniad 32](#), t. 1). Mae gwahaniaethau daearyddol nodedig hefyd yn y cyfraddau tloidi. Er enghraifft, yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr mae'r gyfran uchaf o blant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau cyfatebol – 52% o deuluoedd o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 41%. O ran defnyddio'r cap budd-daliadau yn y rhanbarth, mae 99% o aelwydydd Gogledd-ddwyrain Lloegr sy'n ddarostyngedig i'r cap yn deuluoedd â phlant ([Cyflwyniad 14](#), t. 2).
- d. Mae'r [terfyn dau blentyn](#) ar Gredyd Cynhwysol a gyflwynwyd yn 2017 a'r cap budd-daliadau sydd wedi ei rewi ers 2016 yn torri'r cysylltiad rhwng hawl i nawdd cymdeithasol ac angen ([Cyflwyniad 32](#), t. 1).
- e. Mae'r cap budd-daliadau yn cyfyngu ar faint o daliadau nawdd cymdeithasol y gall teulu heb enillion, neu enillion isel, eu derbyn. Effeithir yn anghymesur ar blant lle nad yw eu rhieni'n gallu gweithio ([Cyflwyniad 32](#), t. 2). Mae hyn yn cael ei waethygu gan ddiffyg gofal plant fforddiadwy sy'n rhwystro mamau rhag gweithio, yn benodol ([Cyflwyniad 26](#), t. 3). Mae rhewi'r cap budd-daliadau hefyd yn golygu, hyd yn oed pan fydd cynnydd mewn cymorth nawdd cymdeithasol mewn argyfwng, nad yw'r rhain yn cael eu derbyn gan deuluoedd sy'n ddarostyngedig i'r cap.
- f. Effaith y terfyn dau blentyn a'r cap budd-daliadau hefyd yw lleihau'r gefnogaeth i deuluoedd mwy sy'n disgyn fwyaf ar blant o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac sy'n gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol yn ôl ethnigrwydd ([Cyflwyniad 32](#), t. 1).
- g. Diffyg gofal plant fforddiadwy, yn enwedig i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r amod dim hawl i gyllid cyhoeddus, pobl sydd heb gael eu cofnodi, a'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, lle rhoddir amod taliad ymlaen llaw ar gyfer gofal plant cyn y gellir cael cymorth fel ôl-daliad ([Cyflwyniad 14](#), t. 3). Mae teuluoedd lle mae un neu ddau riant allan o waith neu ar incwm isel iawn yn cael eu heithrio o bolisiau 'blaenllaw' y Wladwriaeth sy'n Barti ar gyfer addysg rhad ac am ddim y blynyddoedd cynnar ([Cyflwyniad 14](#), t. 3).
- h. Mae materion sy'n ymwneud â gofal plant fforddiadwy yn seiliedig ar dystiolaeth nad yw'r cyfraddau cyllid a delir i awdurdodau lleol i gyllido darpariaeth 'gofal plant am ddim' y blynyddoedd cynnar gan y Wladwriaeth sy'n Barti yn cyrraedd yr hyn mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hun yn amcangyfrif sy'n ofynnol ([Cyflwyniad 12](#), t. 1). Amcangyfrifir bod costau gofal plant i blant dan ddwy oed yn amsugno bron i hanner enillion cyfartalog menywod sy'n cael effaith anghymesur ar ddiogelwch ariannol menywod ([Cyflwyniad 2](#), t. 1).
- i. Ymyrryd â'r hawl i fywyd teuluol drwy roi pobl ag anabledd dysgu difrifol mewn lleoliadau cleifion mewnol sy'n gallu bod ymhell i ffwrdd o gefnogaeth y teulu a chymuned. Mae hyn yn effeithio ar yr unigolyn a'i deulu gan fod yn rhaid i aelodau o'r teulu deithio'n bell a gall hynny amharu ar eu gallu i gynnal eu perthynas a rhoi gofal ([Cyflwyniad 34](#), t. 4).
- j. Codir pryderon mewn tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch amddiffyn pobl Drawsrywedol yn dilyn y diwygiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar y pryd ar absenoldeb mamolaeth Gweinidogol (sydd bellach wedi ei deddfu) a oedd yn gwneud y ddarpariaeth yn llai cynhwysol. Nodir materion pellach mewn perthynas â hawliau teuluol unigolion Trawsrywedol oherwydd darpariaethau cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr am dystysgrif cydnabod rhywedd sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil gael caniatâd penodol eu partner ([Cyflwyniad 6](#), t. 2).
- k. Mae gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr mewn perthynas ag amddiffyn buddiannau plant a phobl ifanc. Yng Nghymru, mae'r ddeddfwriaeth ddatganoledig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys yr hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol mae'n ei gynnwys, wrth gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o Asesiad Effaith Integredig i fodloni'r ddyletswydd sylw

dyledus ([Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#)). Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ([Cyflwyniad 32](#), t. 2).

Cwestiynau Arfaethedig:

- a. Nodwch fanylion yr asesiad sydd wedi cael ei gynnal ar effaith y polisi dim hawl i gyllid cyhoeddus ar blant, gan gynnwys dadansoddiad o nifer y plant yn y Deyrnas Unedig y mae'r amod hwn yn effeithio arnynt?
- b. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â lefelau tlodi plant yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys cymorth penodol i grwpiau sydd mewn perygl penodol o dlodi, er enghraifft, plant mewn teuluoedd mawr sydd â llai o gefnogaeth yn gyfrannol?
- c. Sut mae'r Wladwriaeth sy'n Barti yn sicrhau'r hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, yn enwedig mewn perthynas ag amddiffyn y teulu, ar gyfer pobl ag anableddau dysgu sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau cleifion mewnol?
- d. Eglurwch pa gamau fydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod opsiynau gofal plant fforddiadwy, wedi eu cyllido yn bodoli fel nad yw menywod dan anfantais anghymesur o ran cael mynediad i waith ac nad oes effaith negyddol ar eu diogelwch ariannol.

Safon byw ddigonol (erthygl 11)

22. Nid yw'r hawl i safon byw ddigonol yn cael ei bodloni yn y Deyrnas Unedig. Ar ben hynny, yn hytrach na *gwelliant parhaus* (erthygl 11.1), gwelir dirywiad mewn amodau byw. Amcangyfrifir bod un o bob pump neu 14.5 miliwn o bobl yn byw mewn tlodi ([Cyflwyniad 22](#), t. 8). Mae pryderon yn cael eu codi dro ar ôl tro yn y dystiolaeth a gyflwynwyd am galedi, tlodi ac amddifadedd sylweddol yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud yn benodol â thai, bwyd a dillad digonol yn ogystal â thlodi tanwydd ac allgáu digidol. Nid yw'r Wladwriaeth sy'n Barti wedi mabwysiadu'r holl fesurau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r diffyg tai, ac nid yw ychwaith wedi cymryd camau penodol i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd a rheoleiddio effeithiol yn y Sector Rhentu Preifat.
23. Byddai ymgorffori'r hawl i dai digonol mewn cyfraith ddomestig yn gam pwysig y gall Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ei gymryd. Mae grwpiau ymgyrchu wedi tynnu sylw at sut y byddai cyflwyno hawl i dai digonol mewn cyfraith ddomestig yng Nghymru yn arwain at arbedion sylweddol gwerth £11.5bn yn erbyn y costau cyffredinol o £5bn dros gyfnod o 30 mlynedd. Rhagwelir y gallai'r manteision hynny ddechrau gorbwyso costau ar ôl dim ond chwe blynedd yn sgil gwell llesiant, cyllidebau cynghorau lleol, arbedion iechyd i'r GIG, y system cyfiawnder troseddol, ac mewn gweithgarwch economaidd ychwanegol ([Cyflwyniad 45 a Tai Pawb](#)).
24. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi bod defnyddio'r sector rhentu preifat i ddiwallu anghenion tai y cyhoedd a mynd i'r afael â digartrefedd yn annigonol o ran sicrhau'r hawl i dai digonol, ac mae'n arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n methu â chael gafael ar dai digonol a gwella eu hamodau byw. Mae nifer yr aelwydydd sy'n cael llety yn Lloegr yn y sector rhentu preifat yn ystod y 30 mlynedd diwethaf wedi cynyddu oherwydd diffyg tai fforddiadwy gwirioneddol a llai o dai cymdeithasol ([Cyflwyniad 35](#), t. 2). Yn benodol:
 - a. Mae diffyg rheolaeth ddigonol ar landlordiaid sy'n golygu nad yw eiddo'n cael ei atgyweirio ([Cyflwyniad 40](#), t. 2). Er enghraifft, mae tystiolaeth yn awgrymu bod 28.2% o eiddo yn y sector rhentu preifat yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr yn anfodhaol yn 2020, sef cynnydd o 3.6% ers 2010 ([Cyflwyniad 14](#), t. 3).
 - b. Mae diffyg mesurau rheoli digonol hefyd yn arwain at ddefnydd annheg a dirwystr o droi allan. Mae galwadau i wahardd troi allan heb fai gan fod eu defnydd cynyddol yn gorfodi pobl i fod yn ddigartref. Er gwaethaf

- addo i roi'r gorau i droi allan heb fai, nid oes amserlen ffurfiol ([Cyflwyniad 29](#), t. 4).
- c. Mae angen system sy'n ceisio ailgartrefu pobl sy'n ddigartref yn gyflym ac atal digartrefedd yn y lle cyntaf ([Cyflwyniad 29](#), t.2).
25. Mae diffyg tai fforddiadwy digonol a dim digon o gymorth i gwrdd â chostau rhentu heb eu rheoleiddio yn y sector rhentu preifat. Mae rhewi a chapio budd-daliadau tai yn cyfrannu at y problemau a nodwyd, yn benodol:
- a. Lwfans Tai Lleol yw'r gyfradd a ddefnyddir i gyfrifo faint o gymorth y mae gan rentwyr preifat ar incwm isel hawl iddo fel rhan o'u budd-daliadau. Mae'r Lwfans Tai Lleol yn amharu'n ddifrifol ar y graddau y gall y sector rhentu preifat ddiwallu anghenion pobl sy'n ddigartref gan fod y Lwfans Tai Lleol wedi cael ei rewi ers rhai blynyddoedd ac nid yw wedi codi'n unol â rhenti'r sector rhentu preifat na chwyddiant. Mae datgysylltiad sylweddol rhwng lefelau'r Lwfans Tai Lleol a llety fforddiadwy yn y sector rhentu preifat sy'n gallu diwallu anghenion tai gwirioneddol y rhai y mae angen llety arnynt. I bobl mewn amddifadedd neu ar incwm isel, gall canlyniadau'r datgysylltiad hwn fod yn sylweddol gan fod llety anfforddiadwy yn cynyddu'r risg o dlodi pellach ([Cyflwyniad 35](#), t. 2).
- b. Mae canlyniadau eraill yn cynnwys gorlenwi a llety mewn cyflwr gwael ([Cyflwyniad 40](#), t. 2) sy'n effeithio ar hawliau eraill fel iechyd ac addysg.
26. Mae teuluoedd sy'n ddigartref yn cael eu gadael mewn llety dros dro am gyfnodau hir a gall hyn gael ei waethygu gan effaith y polisi dim hawl i gyllid cyhoeddus:
- a. Mae prinder tai fforddiadwy gwirioneddol neu dai cymdeithasol yn golygu bod pobl yn cael eu gadael mewn llety dros dro am gyfnodau hir. Mae'r llety hwn yn amrywio o dai, fflatiau, gwestai, hosteli, swyddfeydd wedi eu trosi, warysau, neu gynwysyddion cludo, ac maen nhw'n aml mewn cyflwr gwael, gyda phryderon ynghylch byw yn y fath leoedd. Mae tystiolaeth yn dangos, yn ôl ystadegau'r Wladwriaeth sy'n Barti ei hun, mai'r cyfnod amser mwyaf cyffredin i aelwydydd â phlant fod mewn llety dros dro oedd rhwng dwy a phum mlynedd, ac roedd mwy nag un o bob pum aelwyd â phlant mewn llety dros dro wedi aros yno am fwy na 5 mlynedd ([Cyflwyniad 29](#), t.5).
- b. Mae diffyg safonau digonol ar gyfer llety dros dro i ddiffinio pa mor addas ydy'r rhain i fyw ynddyn nhw fel bod pobl yn gallu byw gydag urddas ac yn ddiogel ([Cyflwyniad 33](#), t. 5).
- c. Nid yw'r unigolion sy'n destun yr amod dim hawl i gyllid cyhoeddus yn gallu cael cymorth digartrefedd statudol na dyraniad tai cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu bod teuluoedd yn cael eu gadael mewn amddifadedd ac mewn perygl uchel o gael eu hecsbloetio; er enghraifft roedd 24% o'r teuluoedd a holwyd gan Brosiect 17 wedi cael eu gadael yn ddigartref ac ar y stryd gan awdurdod lleol ([Cyflwyniad 11](#), t. 3).
- d. Mae'r polisi dim hawl i gyllid cyhoeddus hefyd yn golygu bod teuluoedd yn byw mewn amodau tai gwael, heb ddigon o le na phreifatrwydd, ac yn aml yn bell i ffwrdd o ysgolion, ffrindiau a rhwydweithiau cefnogi ([Cyflwyniad 11](#), t. 3).
- e. Mae nifer y lleoliadau llety dros dro yn cynyddu yng Nghymru, gyda chynnydd o 24% wedi ei adrodd rhwng 2016 a 2020 ([Cyflwyniad 29](#), t.5). Ceir llai o anawsterau yng Nghymru o ran sicrhau tenantiaethau cymdeithasol i deuluoedd digartref; mae'r anawsterau sy'n bodoli'n gysylltiedig ag argaeledd cyflenwad tai yn hytrach nag amharodrwydd darparwyr i helpu, rhywbeth sydd ddim bob amser yn wir yn Lloegr ([Cyflwyniad 29](#), t.6). Nodir, mewn ymateb i'r diffyg tai cymdeithasol, bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol ac mae wedi gosod targed blynyddol o 3,500 o dai fforddiadwy ar gyfer pob un o'r 5 mlynedd o 2019/20 ([Cyflwyniad 29](#), t.4).
27. Mae mynediad at yr hawl i dai digonol yn cael ei waethygu ymhellach gan ffactorau anghydraddoldeb ychwanegol, gan gynnwys:
- a. Mae boneddigeiddio yn effeithio'n anghymesur ar unigolion a theuluoedd lleiafrifoedd hiliol ([Cyflwyniad 37](#), t. 1) a'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd ([Cyflwyniad 13](#), t. 1). Mae gorlenwi yn

- fater sy'n effeithio'n anghymesur ar bobl leiafrifoedd hiliol sydd bedair gwaith yn fwy tebygol o wynebu gorlenwi gan arwain at effeithiau ar eu hiechyd. Mae pobl leiafrifoedd hiliol yn wynebu rhwystrau o ran sicrwydd tai gan gynnwys profiadau o gael eu troi allan (gwirioneddol, yn cael ei fygwth, neu'n cael ei ofni) ([Cyflwyniad 37](#), t. 2-3).
- b. Mae pobl ag anabledau dysgu difrifol yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth a chymorth ynghylch tai addas ac mae prinder tai o'r fath i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn effeithio ar annibyniaeth pobl ac oedi cyn eu rhyddhau o unedau cleifion mewnol ([Cyflwyniad 34](#), t. 5-6).
- c. Mae polisi hawl i rentu sy'n gofyn am brawf ysgrifenedig o statws mewnffudo sy'n caniatáu iddynt fyw yn y Deyrnas Unedig yn golygu bod y rhai sydd â statws mewnffudo ansicr yn wynebu rhwystrau rhag cael tai, ac mae rhai lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys y rhai sydd â statws preswlydd sefydlog yn wynebu gwahaniaethu gan landlordiaid sy'n ceisio osgoi dirwyon ([Cyflwyniad 18.a](#), t. 10).
- d. Nid yw pobl ifanc yn y system gofal cymdeithasol yn cael digon o gefnogaeth ac mae methiant i ystyried y risgiau torri hawliau ychwanegol maen nhw'n dod ar eu traws. Nid yw pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref yn cael eu lletya'n ddiodyfyn o dan ddarpariaethau mwy cefnogol a20 o [Ddeddf Plant 1989](#) ac, yn lle hynny, maen nhw'n cael eu lletya fwyfwy o dan [Ddeddf Tai 1996](#) neu a17 o [Ddeddf Plant 1989](#) sy'n ddewis cost is i awdurdodau lleol. Mae hyn yn eu rhoi mewn perygl o fod yn ddigartref eto ar ôl cyrraedd 18 oed. Mae pobl sydd wedi gadael gofal ac sy'n gadael llety lle nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel, neu lety sy'n anaddas, neu mewn ôl-ddyledion neu'n cael eu troi allan, neu'n dod yn ddigartref o ganlyniad i fod yn y carchar, yn cael eu hystyried yn fwriadol ddigartref (ac felly nid oes dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w cynorthwyo) er gwaethaf y canllawiau y dylid osgoi hyn ([Cyflwyniad 19](#), t. 1-3).
- e. Mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol+ yn wynebu argyfwng digartrefedd - mae 24% o bobl ifanc sy'n ddigartref yn ystyried eu bod yn perthyn i'r grŵp hwnnw ([AKT](#)).
28. Mae tystiolaeth yn dangos bod hygyrchedd tai sy'n briodol yn ddiwylliannol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn parhau i fod yn fater nad yw'n cael ei drin yn ddigonol. Yn benodol:
- a. Mae'r ffigur a ddarparwyd gan y Wladwriaeth sy'n Barti (SPR, paragraff 118) ynghylch cynnydd yn y ddarpariaeth llety yn methu â darparu gwybodaeth am ddarpariaeth barhaol ar gyfer lleiniau ar rent cymdeithasol. Gostyngodd hyn 11.1% rhwng mis Ionawr 2010 a mis Ionawr 2020 gan arwain at ostyngiad cyffredinol o 8.4% yn y ddarpariaeth. Er bod cynnydd o 40% yn nifer y lleiniau tramwy, mewn termau real mae hyn yn golygu cynnydd o 101 mewn lleiniau tramwy dros 10 mlynedd. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 516 mewn lleiniau parhaol. Roedd Cyfrifiad Carafannau Ionawr 2022 yn cofnodi 2,893 o garafannau heb le i aros, ac felly'n diffinio'r aelwydydd hyn yn statudol ddigartref ([Cyflwyniad 24](#), t. 3-4).
- b. Mae pryderon tebyg ynghylch natur ddetholus defnyddio a chasglu data yn ymwneud â'r diffiniad cynllunio o Sipsiwn a Theithwyr yn 2015. Nid yw pobl sydd wedi rhoi'r gorau i deithio am unrhyw reswm (gan gynnwys anabled, salwch, neu gyfrifoldebau gofalu, henaint) bellach yn cael eu cyfrif fel pobl sydd angen llain Teithwyr yn yr asesiad o'r angen am lety. Roedd y diffiniad diwygiedig hwn yn lleihau'r gofyniad am 1,584 o leiniau ychwanegol i 345 gan adael pobl heb fynediad at lety priodol ([Cyflwyniad 24](#), t. 4-5). Yn ddiweddar, cafodd y diffiniad hwn ei ystyried yn anghyfreithlon gan y Llys Apêl ar y sail ei fod yn gwahaniaethu ac na ellid ei gyfiawnhau ([Friends, Families & Travellers & Smith v Secretary of State for Levelling Up, Housing & Communities & Ors \[2022\] EWCA Civ 1391](#)).
- c. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n nodi bod teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr heb le i aros yn trosedd yn fygythiad uniongyrchol i'w ffordd nomadaidd o fyw a'u harferion diwylliannol ([Cyflwyniad 24](#), t. 5).
- d. Yng Nghymru, mae darpariaeth ddigonol a phriodol hefyd yn destun pryder ac yn benodol i 146 o garafannau (efallai fod saith neu wyth o bobl yn byw mewn carafán) sy'n byw ar glytiau o dir ledled Cymru nad ydynt yn safleoedd swyddogol ac nad oes

fawr ddim mynediad, os o gwbl, at drydan y prif gyflenwad, glanweithdra, cyfleusterau ymolchi, sbwriel ac ailgylchu na dŵr yfed. Mae safleoedd yn aml wedi eu lleoli ar yr ymylon heb fawr ddim mynediad, os o gwbl, i wasanaethau ac amwynderau cyhoeddus. Mae hyn er gwaethaf arolwg Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn [a] Theithwyr a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yn 2021 sy'n datgelu bod angen 160 o leiniau yng Nghymru ([Cyflwyniad 21](#), t. 1-2).

- e. Mae'r ddarpariaeth sy'n bodoli ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru yn orlawn, mewn lleoliadau annymunol ac fe'i cynlluniwyd yn aml heb gyfranogiad y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr ac felly nid yw'n ddiwylliannol briodol. Nid yw ychwaith yn ystyried yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac anghenion o fewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr ([Cyflwyniad 21](#), t. 3).
 - f. Mae diffyg lleiniau tramwy neu fannau aros wedi eu negodi a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael effaith negyddol ar hawliau pobl gan fod y gallu i deithio, yn enwedig yn dymhorol, yn fynegiant pwysig o ddiwylliant a threftadaeth na ellir ei wireddu. ([Cyflwyniad 21](#), t. 2).
 - g. Gall diffyg darpariaeth addas arwain at bobl yn byw mewn dai o frics a mortar er nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn dangos y gall hyn arwain at ynysu, pryder cymdeithasol a datgysylltu pobl oddi wrth gymuned a threftadaeth, gyda phobl hefyd yn profi gwahaniaethu ar sail hunaniaeth ([Cyflwyniad 21](#), t. 3-4).
29. Bu diffyg mesurau digonol i fynd i'r afael â'r hawl i fwyd digonol gyda lefelau cynyddol o ansicrwydd bwyd a dibyniaeth ar fanciau bwyd ([Cyflwyniad 4](#), p. 1). Mae'r darlun sy'n cael ei lunio gan adroddiad y Wladwriaeth sy'n Barti (paragraff 128) yn cyferbynnu'n llwyr â'r profiadau a nodwyd yn y dystiolaeth o gynydd sydyn mewn ansicrwydd bwyd, defnyddio banciau bwyd, a mentrau eraill i roi bwyd ([Cyflwyniad 1](#), t. 31-32 a [Chyflwyniad 8](#), t.1). Yn ôl [Ymddiriedolaeth Trussell](#), cafodd 2.1 miliwn o bersonau bwyd brys eu darparu i bobl mewn argyfwng gan fanciau bwyd ar rwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell yn unig ym mlwyddyn ariannol 2021/22. Roedd hyn yn cynrychioli

cynydd o 14% o 2019 ymlaen ([Cyflwyniad 8](#), t.1). Nid yw banciau bwyd yn cymryd lle hawliau sy'n cael eu gwarchod yn gyfreithiol. Nid yw'r mesurau a fabwysiadwyd gan y Wladwriaeth sy'n Barti yn ddigonol ar gyfer mynd i'r afael â maint y broblem a fydd yn gwaethgu yn yr argyfwng costau byw presennol. Nodir bod Llywodraeth yr Alban wedi nodi cynigion yn ei Mesur Hawliau Dynol i ymgorffori'r hawl y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol i fwyd digonol yng Nghyfraith yr Alban a fydd ar gael yn uniongyrchol yn llysoedd yr Alban (SPR, paragraff 131). Dylid ymestyn hawl i fwyd sydd wedi ei warchod yn gyfreithiol ar draws y Wladwriaeth sy'n Barti.

30. Mae'r ansicrwydd bwyd a thlodi bwyd yn effeithio ar amrywiaeth eang o grwpiau o bobl:
- a. Mae'r argyfwng cost byw yn effeithio ar allu pobl hŷn i dalu costau hanfodol o ddydd i ddydd, gan gynnwys bwyd. Amcangyfrifir na fydd gan ddwy filiwn o aelwydydd hŷn ddigon o incwm i dalu am wariant hanfodol yn 2022/23 ([Cyflwyniad 42](#), t.3).
 - b. Nid yw pobl sy'n chwilio am loches yn gallu fforddio bwyd (ymhlith eitemau hanfodol eraill fel esgidiau, dillad, meddyginiaethau, cynnyrch glanhau, tocynnau trafndiaeth gyhoeddus) oherwydd y tlodi y maent yn ei brofi o ganlyniad i gefnogaeth annigonol ([Cyflwyniad 41](#), t. 2)
 - c. Mae'r rhai sydd â chyfyngiadau dim hawl i gyllid cyhoeddus a mudwyr heb ddogfennaeth yn wynebu lefelau uchel o dlodi ac amddifadedd bwyd, sy'n gallu arwain at blant yn byw ar lai na £2 y dydd. Mynegir pryderon bod hyn yn gysylltiedig â'r diffyg cymorth a roddir i deuluoedd yn gyffredinol a chymorth nad yw'n seiliedig ar eu gwir anghenion ([Cyflwyniad 18.a](#), t. 15).
 - d. Canfu Arolwg Mawr Anabledd Manceinion Fwyaf 2022 (Arolwg GMBD 2022) fod chwarter yr ymatebwyr wedi gorfod defnyddio banc bwyd. Mae 68% wedi newid y bwyd maen nhw'n ei fwyta i arbed arian a dywedodd 54% eu bod yn bwyta llai ([AUB 23](#), Prif Ganfyddiadau). Mae ymchwil wedi amcangyfrif bod gan dros 600,000 o bobl anabl lai na £10 neu lai yr wythnos i dalu am fwyd a chostau eraill ([Cyflwyniad 28](#), t.2).

- e. Mae tlodi yn y gwaith yn golygu bod gweithwyr ar gyflogau isel yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau ac ychydig iawn sydd dros ben ar gyfer hanfodion, gan gynnwys bwyd. Mae gwaith ar yr hawl i fwyd gan undeb llafur sy'n cynrychioli gweithwyr bwyd yn nodi bod gweithwyr bwyd yn ei chael hi'n anodd ennill digon i brynu'r bwyd maen nhw'n ei gynhyrchu ac yn nodi bod mwy o fanciau bwyd yn y Deyrnas Unedig na siopau cadwyni bwyd cyflym mawr ([Cyflwyniad 40](#), t. 2-3).
- f. Mae gallu pobl i gael gafael ar fwyd sy'n briodol i'w hanghenion deietegol, diwylliannol a chrefyddol yn fater o urddas a pharch i'w hawliau. Mae'r argyfwng costau byw wedi gweld cynnydd ym mhris bwyd, gan gynnwys bwyd sy'n addas i grefydd, diwylliant a deiet (oherwydd cyfyngiadau iechyd ar gyfer y rhai ag alergeddau sydd mewn perygl o anaffylacsis neu glefyd coeliag a llety sy'n ofynnol ar gyfer rhai plant anabl) ([Cyflwyniad 8](#), t. 3 a CH 28, t. 1). Mewn rhai achosion, mae chwyddiant y mathau hyn o fwyd wedi cynyddu yn fwy na chwyddiant mathau eraill o fwyd ([Cyflwyniad 8](#), t.3).
- g. Nid yw polisi Gwladwriaeth sy'n Barti yn ystyried y berthynas rhwng budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd ac ansicrwydd bwyd na diffygion parhaus yn y system nawdd cymdeithasol sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn yr argyfyngau diweddar. Yn 2019/20, dywedodd 25% o'r rhai sy'n cael budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd fod ganddynt ansicrwydd bwyd o'i gymharu ag 8% o'r boblogaeth gyffredinol ([Cyflwyniad 4](#), t. 2).
31. Nid yw'r hawl i ddillad digonol wedi cael digon o sylw yn ôl y rhai sy'n gweithio yn y maes er gwaethaf rhwystrau eang i gael gafael ar ddillad yn y Deyrnas Unedig ([Cyflwyniad 7a](#) a [Chyflwyniad 7b](#)). Mae'r rhwystrau a nodwyd yn ymwneud ag incwm annigonol o ran cyflogau a chymorth nawdd cymdeithasol annigonol sy'n golygu na ellir diwallu anghenion sylfaenol, gan gynnwys yr hawl i fwyd, dillad a lloches ([Cyflwyniad 7b](#), t. 1-2). Ar ben hynny, mae rhai grwpiau'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gafael ar ddillad digonol, er enghraifft, y rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol, pobl sy'n ceisio lloches, pobl hŷn, y rhai sy'n dianc rhag trais domestig (menywod yn bennaf) a dynion sy'n oedolion. Mae'r cynnydd yn nifer y plant sydd angen dillad gan y sefydliad Sharewear wedi codi o 22% sydd wedi ei nodi'n hanesyddol bob blwyddyn ers 2014 i 40% ers mis Ionawr 2022. Mae'r cynnydd mewn costau dillad a'r argyfwng costau byw presennol yn codi pryderon na fydd y sefyllfa hon ond yn gwaethygu ([Cyflwyniad 7b](#), p. 2-4).
- a. Mae tlodi a'r argyfwng costau byw yn effeithio ar allu pobl i fforddio gwresogi eu cartrefi yn ystod y gaeaf. Er enghraifft, canfu Monitor Tlodi Manceinion Fwyaf 2022 fod 15% o'r holl aelwydydd ym Manceinion Fwyaf yn profi tlodi tanwydd. Mae hyn o'i gymharu â chyfartaledd Lloegr o 13.4% ([Cyflwyniad 22](#), t. 9). Mae hyn yn golygu bod pobl yn dewis rhwng 'bwyta neu wresogi' yng nghydestun biliau tanwydd sy'n codi ([Cyflwyniad 2](#), t.1). Mae canran yr incwm sy'n cael ei wario ar hanfodion fel ynni a thanwydd yn cynyddu ar gyfer pobl hŷn. Mae cydberthynas hefyd ag incwm is a chanran gwariant uwch sy'n golygu bod effaith anghymesur ar bobl hŷn llai cyfoethog ([Cyflwyniad 42](#), t. 3-4).
- b. Mae cynnydd mewn costau byw yn effeithio'n sylweddol ar deuluoedd a phobl anabl oherwydd costau byw ychwanegol y gallent eu hwynebu mewn perthynas ag offer, gwresogi dŵr, tanwydd ac anghenion ynni ([Cyflwyniad 28](#), p. 1). Dywedodd 75% o'r ymatebwyr yn Arolwg GMBD 2022 eu bod yn gwario mwy ar nwy a thrydan oherwydd eu bod yn anabl a dywedodd 70% eu bod yn defnyddio llai o wres a golau ([Cyflwyniad 23](#), Prif Ganfyddiadau). Nid yw taliad untro Llywodraeth y Deyrnas Unedig o £150 i'r rhai sy'n gymwys i dderbyn budd-daliadau anabledd yn ddigon mewn cyd-destun lle'r oedd disgwyl i filiau tanwydd gynyddu 65% erbyn mis Hydref 2022 ([Cyflwyniad 2](#), t.1).
- c. Gallai mynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn gwahanol ffyrdd fod yn fuddiol am nifer o resymau, ond nid ydym yn mynd ar drywydd hyn. Er enghraifft, byddai buddsoddi mewn cynllun insiwleiddio cartrefi dan arweiniad y cyngor yn ffordd o gefnogi teuluoedd i leihau biliau a lleihau allyriadau carbon. Byddai hyn hefyd yn cyfrannu at gamau gweithredu'r Wladwriaeth sy'n Barti i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, agwedd bwysig ar sicrhau'r hawl i safon byw ddigonol ([Cyfeillion y Ddaear](#)).

32. Mae effaith allgáu digidol yn rhoi rhai pobl a grwpiau dan anfantais anghymesur o ran cael mynediad at hawliau allweddol a'u mwynhau, ac mae'n effeithio ar eu hawl i safon byw ddigonol. Er enghraifft:

- a. Mae pobl sy'n ddigartref yn wynebu allgáu digidol sy'n gallu gosod rhwystrau ychwanegol rhag cael gafael ar ofal iechyd a deintyddol (Cyflwyniad 29, t. 8).
- b. Dywedodd 23% o'r ymatebwyr yn Arolwg GMBD 2022 nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau digidol oherwydd diffyg arian (Cyflwyniad 23, Prif Ganfyddiadau).
- c. Mae'r profiad o dlodi a amddifadedd ymysg y rhai sy'n ceisio lloches, o ganlyniad i'r diffyg cefnogaeth ddigonol, yn golygu nad ydynt yn gallu prynu credyd data a ffôn symudol (Cyflwyniad 41, t. 2).
- d. Nid yw gweithwyr cyflog isel mewn trefniadau gwaith anniogel yn gallu ymrwymo i gontractau ffonau symudol (Cyflwyniad 40, t. 2)
- e. Mae'r rhai sy'n cael budd-daliadau lles sydd heb sgiliau digidol neu fynediad rhwydd at gysylltiad rhyngrydd dibynadwy yn wynebu rhwystrau oherwydd bod y system nawdd cymdeithasol bellach yn cael ei gweinyddu bron yn gyfan gwbl ar-lein (Cyflwyniad 26, t. 13).
- f. Mae pryderon hefyd yn ymwneud ag allgau digidol mewn perthynas â mynediad at drafndiaeth gyhoeddus lle bu symud o docynnau ffisegol i docynnau digidol a chau swyddfeydd tocynnau ffisegol. Mae pobl heb gyfrifon banc, pobl ar incwm isel, pobl hŷn, pobl anabl, pobl sy'n ddigartref a'r rheini sy'n dioddef tlodi digidol i gyd yn cael eu heffeithio'n anghymesur (Cyflwyniad 16, t. 1-2)

Cwestiynau Arfaethedig:

- a. Eglurwch y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng tai gan gynnwys:
 - i. Y camau sy'n cael eu cymryd i gynyddu'r stoc o dai cymdeithasol neu dai gwirioneddol fforddiadwy.
 - ii. Camau i fynd i'r afael â fforddiadwyedd, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau rhenti a chodi cyfraddau Lwfans Tai Lleol.
 - iii. Mesurau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y gallu i fyw'n annibynnol, yn enwedig mewn llety dros dro drwy gyflwyno fframwaith o safonau.
 - iv. Amserlen ar gyfer rhoi terfyn ar droi allan heb fai.
 - v. Yr effeithiau penodol a wynebir gan unigolion a theuluoedd lleiafrifoedd hiliol mewn perthynas â thai; a
 - vi. Hygyrchedd tai sy'n briodol yn ddiwylliannol ar gyfer Sipsiwn, a Theithwyr.
- b. Eglurwch y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ansicrwydd bwyd ac yn benodol sut mae'n effeithio ar bobl hŷn, pobl sy'n ceisio lloches, y rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus, pobl anabl a phlant a theuluoedd.
- c. Pa gamau pellach sydd wedi eu cynllunio i gynorthwyo pobl sy'n profi tlodi tanwydd o ganlyniad i'r argyfwng costau byw?
- d. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau eang rhag cael gafael ar ddillad digonol yn y Deyrnas Unedig?
- e. Pa gamau y gellir eu cymryd i leihau effaith allgáu digidol ar rai pobl a grwpiau, sy'n effeithio ar fwynhau hawliau allweddol ac sy'n effeithio ar eu hawl i safon byw ddigonol?

Iechyd (erthygl 12)

33. Mae hawl pawb i fwynhau'r safon uchaf bosibl o iechyd corfforol a meddyliol yn cael ei danseilio gan effeithiau toriadau ariannol i gyni mewn gwasanaethau gofal iechyd cyhoeddus ac effeithiau parhaus pandemig Covid-19. Mae materion sy'n ymwneud â mynediad at ofal iechyd yn cynnwys:

- a. Mae gan bawb sy'n byw yn y Deyrnas Unedig hawl i gofrestru ac ymgynghori â Meddyg Teulu, yn rhad ac am ddim, gan gynnwys mudwyr dros dro a heb ddogfennaeth, ceiswyr lloches, ceiswyr lloches a wrthodwyd a theithwyr. Mae'r canllawiau'n nodi nad oes angen cyfeiriad sefydlog na rhif adnabod ar bobl i gofrestru na chael mynediad at driniaeth. Fodd bynnag, nid yw hynny'n adlewyrchu profiadau pobl bob amser (Cyflwyniadau [24](#), [27](#), [29](#) a [41](#)). Yng Nghymru, mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021 yn datgan bod ffoaduriaid, pobl sy'n ceisio lloches a phobl sy'n cael eu gwrthod rhag cael lloches yng Nghymru yn cael eu hystyried fel rhai sy'n 'preswyllo fel arfer' ac felly y dylid eu cofrestru ac y dylid darparu gofal sylfaenol iddynt am ddim. Fodd bynnag, caniateir disgresiwn i drin mudwyr heb ddogfennaeth fel 'ymwelwyr tramor' ac felly dim ond gofal brys y mynnir eu bod yn ei gael. Gall hyn arwain at ddryswch, a bydd y rhai sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid sydd mewn perygl o gael eu gwrthod rhag gallu cofrestru â Meddyg Teulu (lle na ddylai hynny ddigwydd) o ganlyniad i'r ansicrwydd a grëir drwy gamddefnyddio'r disgresiwn ([Cyflwyniad 27](#), t. 1).
- b. Mae pobl heb gartref diogel a saff yn profi anghydraddoldebau iechyd eithafol – o ran iechyd gwael a rhwystrau sylweddol rhag cael gafael ar ofal iechyd ([Cyflwyniad 29](#), t. 2).
- c. Mynediad at ofal iechyd i Sipsiwn a Theithwyr. Nid yw ymdrechion i fynd i'r afael â phroblemau cofrestru ar gyfer mynediad at ofal iechyd wedi bod yn effeithiol, ac mae'n parhau i fod yn broblem gyffredin ([Cyflwyniad 24](#), t. 6). Er bod cynlluniau wedi cael eu datblygu yng Nghymru, fel 'Teithio i Iechyd Gwell' a 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' mae angen rhoi'r rhain

ar waith ac mae angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn ymwybodol o'r canllawiau a gweithredu arnynt er mwyn cael gwared ar bethau sy'n rhwystro gofal iechyd ([Cyflwyniad 10](#), t. 9-10).

- d. Mae pobl drawsryweddol hefyd yn profi gwahaniaethu wrth geisio cael gafael ar ofal. Dywedodd 14% o bobl Trawsryweddol a ymatebodd i'r Arolwg Bywydau Traws bod gofal wedi cael ei wrthod iddynt ar o leiaf un achlysur oherwydd eu bod yn Drawsryweddol ([Cyflwyniad 6](#), tudalennau 2-3).
 - e. Cafodd anghydraddoldeb o ran mynediad at ofal iechyd corfforol a meddyliol ei waethygu gan bandemig Covid-19 ac mae pryderon ynghylch hyd yr oedi cyn triniaethau. Pryderon ynghylch diffyg preifatrwydd oherwydd bod derbynyddion yn 'porthgadw' a hygyrchedd sy'n ymwneud ag allgáu digidol – yn enwedig ar gyfer pobl hŷn a phobl sy'n profi digartrefedd ([Cyflwyniad 29](#), t. 8).
34. O ran ansawdd gofal:
- a. Mae disgwyliad oes pobl ag anabledau dysgu yn sylweddol is, ac mae chwech o bob deg yn marw cyn cyrraedd 65 oed. Honnir bod bron i hanner y marwolaethau yn rhai y mae modd eu hosgoi, ond nad oes digon o waith iechyd ataliol yn cael ei wneud, a bod poen ac afiechyd yn cael eu priodoli ar gam i anabled dysgu. Nid oes digon o hyfforddiant ar gael i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac nid oes digon o adnoddau i fynd i'r afael â materion iechyd pobl ag anabled dysgu difrifol. Mae defnyddio gorchmynion Peidio â Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR) yn ffynhonnell o anghydraddoldeb sylweddol. Mynegwyd pryderon bod pobl a ddylai gael eu dadebru yn destun gorchmynion DNACPR a bod gorchmynion o'r fath wedi cael eu rhoi ar gartrefi gofal cyfan yn gyffredinol yn ystod pandemig Covid-19. Ni roddwyd gwybod i'r teuluoedd. Arweiniodd hyn hefyd at ofal annigonol lle nad oedd y staff yn deall gorchmynion ac roeddent yn meddwl ei fod yn ymestyn i unrhyw ofal neu driniaeth feddygol. Mae tystiolaeth hefyd yn codi

pryderon bod pobl ag anableddau dysgu difrifol yn dioddef niwed corfforol a meddyliol ac esgeulustod sy'n effeithio ar iechyd fel ataliaeth ddiangen neu anghywir, cyfyngu, ymyriadau meddygol a thawelyddu ([Cyflwyniad 34](#), tudalennau 6-8).

- b. Mae gan Sipsiwn a Theithwyr ddisgwyliad oes o 10-25 mlynedd yn llai na'r boblogaeth gyffredinol ac maent yn profi cyfraddau uwch o broblemau iechyd. Mae cyfraddau hunanladdiad Sipsiwn a Theithwyr yn anghymesur o uchel ond eto maent yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol mewn cynlluniau atal hunanladdiad lleol. Nid yw dulliau poblogaeth gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl yn mynd i'r afael ag anghenion Sipsiwn a Theithwyr, ac o ganlyniad nid ydynt yn mwynhau'r safon uchaf bosibl o iechyd meddwl a chorfforol yn unol â'r Cyfamod ([Cyflwyniad 24](#), tudalennau 6-7).
 - c. Mae'r gwahaniaethu a wynebir gan y rhai sy'n profi digartrefedd yn golygu bod ganddynt anghenion iechyd sylweddol sydd heb eu diwallu. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfartaledd oedran marwolaeth dynion sy'n profi digartrefedd yw 46 oed, ac i fenywod mae'n 42 oed ([Cyflwyniad 29](#), t. 8).
 - d. Mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn wynebu gwahaniaethu eang mewn lleoliadau iechyd, a dywed dros 14% (1 o bob 7) o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol eu bod yn osgoi ceisio gofal iechyd rhag ofn iddynt wynebu gwahaniaethu ([Stonewall](#)).
 - e. Mae pobl drawsryweddol yn wynebu amseroedd aros hir am driniaeth briodol ac yn dweud bod triniaeth yn cael ei gwrthod er gwaethaf argymhellion gan Gymdeithas Feddygol Prydain. Dywedodd 70% o'r ymatebwyr i'r Arolwg Bywydau Traws eu bod wedi cael eu heffeithio gan drawsffobia a dywedodd 57% o bobl Traws eu bod wedi osgoi mynd at y meddyg pan oeddent yn sâl ([Cyflwyniad 6](#), tudalennau 2-3).
35. Elfen o allu mwynhau'r hawl i iechyd yn llawn yw cefnogaeth ddigonol o ran gofal cymdeithasol. Dywedodd ymatebwyr i Arolwg GMBD 2022 nad oedd gofal cymdeithasol yn diwallu eu hanghenion yn llawn ar gyfer bywyd cymdeithasol neu lesiant, gyda 25% yn dweud nad oedd yn diwallu eu hanghenion 'o gwbl'. Mae ansawdd a hygyrchedd gofal cymdeithasol

yn dirywio, gyda 29% yn dweud bod gofal cymdeithasol yn waeth na dwy flynedd yn ôl, 11% yn dweud bod gofal cymdeithasol yr oeddent eisiau ei gael wedi cael ei wrthod a'r mwyafrif o bobl sy'n cyflogi Cynorthwyr Personol yn ei chael yn fwy anodd recriwtio a chadw staff o ansawdd da ([Cyflwyniad 23](#), Prif ganfyddiadau).

36. Effaith polisiau'r llywodraeth ar iechyd:

- a. Mae cyfundrefnau codi tâl sy'n seiliedig ar statws mudo ar gyfer y rhai heb ganiatâd amhenodol i aros neu nad ydynt fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig yn effeithio ar yr hawl i iechyd, gan fod y cysylltiad rhwng y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Swyddfa Gartref yn niweidiol o ran meithrin hyder a phobl yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth ac yn creu dryswch ynghylch yr hyn mae ganddynt hawl i'w gael. Mae'r ffaith bod dyledion heb eu talu yn sail i wrthod caniatâd i adael neu ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn broblemus. Mae hyn yn cael effaith benodol ar gleifion beichiog. Mae ofn alltudio yn arwain at oedi wrth gael gafael ar driniaeth ([Cyflwyniad 27](#), t. 4-5) ac yn rhwystr i iechyd ([Cyflwyniad 9](#), t. 3). Mae pryderon hefyd bod y drefn codi tâl yn cael ei defnyddio mewn ffordd wahaniaethol ar sail proffilio Saesneg fel laith Ychwanegol a hil ([Cyflwyniad 27](#), t. 4-5).
- b. Mae effaith yr argyfwng costau byw a thlodi yn arwain at bwysau sylweddol ac effeithiau iechyd meddwl ar bobl. Yn ôl Age UK, mae cyllidebu eithafol a gwneud penderfyniadau dyddiol rhwng hanfodion yn effeithio ar iechyd meddwl pobl hŷn ([Cyflwyniad 42](#), t. 4).
- c. Mae cyfyngiadau ar yr hawl i weithio a chymorth ariannol cyfyngedig i bobl sy'n ceisio lloches yn arwain at ynysu ac anweithgarwch dan orfod, ac wedi cael effaith negyddol ar lesiant seicolegol. Mae diffyg cymorth ariannol digonol yn effeithio ar fynediad at feddyginiaethau sydd eu hangen ([Cyflwyniad 41](#), t. 2).
- d. Mae anghydraddoldeb o ran brechlynnau wedi cael ei godi mewn perthynas â diogelu drwy frechlyn Covid-19, yn enwedig ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, menywod, plant, pobl sy'n ddigartref, pobl anabl, mudwyr a phobl gyflogedig ar incwm isel ([Cyflwyniad 18b](#), t. 2-6).

Cwestiynau Arfaethedig:

- a. Eglurwch pa asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal mewn perthynas â'r trefniadau codi tâl ar gyfer y rhai heb ganiatâd amhenodol i aros. Yn benodol, eglurwch pa fesurau sy'n cael eu mabwysiadu i sicrhau bod gofal cyn geni a gofal meddygol priodol ac amserol yn cael ei dderbyn.
- b. Rhowch sylwadau ar y pryderon sy'n ymwneud ag oedi wrth drin y rhai y mae angen gofal iechyd corfforol a gofal iechyd meddwl arnynt. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag effaith pandemig Covid-19 ar amseroedd aros? Pa wersi sydd wedi cael eu dysgu o'r gwaith o flaenoriaethu brechlyn Covid-19 sydd wedi cael ei wneud? Sut roedd ffactorau fel hil, oedran, rhywedd, ethnigrwydd yn cael eu hystyried i sicrhau tegwch mynediad at frechlyn?
- c. Esboniwch safbwynt y Wladwriaeth sy'n Barti mewn perthynas â defnyddio gorchmynion DNACPR. A yw'r Wladwriaeth sy'n Barti yn derbyn eu bod wedi cael eu camddefnyddio yn ystod pandemig Covid-19? Os felly, pa gamau sydd wedi cael eu cymryd i ddysg gwersi a sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto?
- d. Beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r cyfraddau hunanladdiad anghymesur o uchel ymysg Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac i warantu y bydd pobl yn mwynhau'r safon uchaf bosibl o iechyd corfforol a meddyliol, gan gynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol?
- e. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag amseroedd aros i bobl Drawsrywiol gael triniaeth feddygol?
- f. Pa gymorth mae'r Wladwriaeth sy'n Barti yn ei ddarparu i bobl, yn enwedig pobl hŷn, a phobl mewn sefyllfaoedd o galedi ariannol eithafol, i sicrhau nad yw hyn yn effeithio'n andwyol ar eu hiechyd ac yn amharu ar eu mwynhad o'r hawl i iechyd?

Addysg (erthygl 13)

37. Mae ymrwymiad datganedig y Wladwriaeth sy'n Barti (SPR, paragraff 162) i sicrhau cymwysterau lefel uchel i gynifer o fyfyrwyr â phosibl, er yn gadarnhaol, yn cael ei danseilio gan dystiolaeth a gyflwynir o anghydraddoldebau parhaus. Nid yw'r Wladwriaeth sy'n Barti yn gwarantu hawl pawb i addysg ac nid yw'n cymryd yr holl gamau angenrheidiol yn unol â'r argymhelliad (Arsylwadau Terfynol, 6ed Adolygiad Cyfnodol y Deyrnas Unedig, paragraff 64)
38. Mae gwahaniaethu o ran mynediad at addysg a chydaddoldeb mewn oedran ysgol gorfodol yn cynnwys:
 - a. Lefelau uchel o wahaniaethu strwythurol ar sail hil yn erbyn plant a phobl ifanc Du, er enghraifft:
 - i. Diffyg cynrychiolaeth amrywiol yn y cwricwlwm a'r sector ([Cyflwyniad 38](#), tudalennau 5-6).
 - ii. Materion yn gysylltiedig â disgwyliadau isel o fyfyrwyr Du ([Cyflwyniad 38](#), t. 5).
 - iii. Triniaeth wahaniaethol gyda chwiliadau anghymesur, gan gynnwys chwilio cyrff noeth pobl ifanc Du yn yr ysgol, fel achos [Plentyn Q](#). Mae tystiolaeth yn dangos bod 75% o blant sy'n destun chwiliadau cyrff noeth yn 2019-2021 o gefndiroedd ethnig amrywiol ([Cyflwyniad 38](#), t. 5). Yn 2022, dywedodd Comisiynydd Plant Lloegr fod 58% o fechgyn a oedd yn destun archwiliad corff noeth gan yr Heddlu Metropolitanidd (mewn gwahanol leoliadau) wedi eu nodi'n Ddu gan y swyddog chwilio, gan danseilio urddas, hawliau dynol a amddiffyniadau sylfaenol ([Cyflwyniad 38](#), t. 5).
 - iv. Lefelau gwahaniaethol o waharddiadau parhaol sy'n ymwneud â hil ac ethnigrwydd, sy'n gallu cynyddu'r risg o droseddu ymysg pobl ifanc a'u gwneud yn agored i fasnachu. Ar ben hynny, mae triniaeth o'r fath yn arwain at lai o agweddau negyddol ac ymddieithrio oddi wrth addysg. Mae hyn yn cael effaith

- ganlyniadol ar gyflogadwyedd a grymuso economaidd ([Cyflwyniad 38](#), t. 5).
- b. Gwahaniaethu mewn addysg ar gyfer myfyrwyr anabl ag anableddau dysgu difrifol:
- i. Nid yw'r rhai sydd ag anabledd dysgu difrifol yn cael addysg y mae ganddynt hawl i'w gael a'i mwynhau o'u cymharu â chyfoedion nad ydynt yn anabl, torrir ar eu haddysg ac maent yn cael eu cau allan o'r cwricwlwm ar adegau ([Cyflwyniad 34](#), t. 9)
 - ii. Mae pobl ifanc ag anabledd dysgu difrifol yn destun ymyriadau cyfyngol (atal, tawelyddu) sy'n achosi niwed corfforol a seicolegol ac yn tarfu ar ddysgu ac yn amharu ar eu hurddas ([Cyflwyniad 34](#), t. 9).
 - iii. Mae pobl ifanc ag anabledd dysgu difrifol mewn perygl o gael eu cau allan yn amhriodol o leoliadau addysgol lle mae diffygion o ran cymorth neu hyfforddiant staff ([Cyflwyniad 34](#), t. 9).
 - iv. Nid yw pobl ifanc mewn unedau cleifion mewnol yn cael addysg ddigonol o ran oriau na dewis o bynciau/hyfforddiant galwedigaethol ([Cyflwyniad 34](#), t. 9).
- c. Nid yw cyllid EAL sydd ar gael mewn ysgolion yn ddigon i gynorthwyo ag anghenion a chyrhaeddiad dysgwyr – o ran lefel a pharhad, ac nid yw pawb yn gallu cymryd rhan yn effeithiol yn eu hawl i addysg. Mae'r effaith wahaniaethol yn tynnu sylw at bwysigrwydd dadgyfuno data a sut mae heterogenedd yn cuddio bylchau cyrhaeddiad – er enghraifft, rôl EAL mewn canlyniadau addysg ar y cyd ag ethnigrwydd wrth adnabod grwpiau sydd mewn perygl o gyrhaeddiad isel a chynnydd gwael ([Cyflwyniad 39](#), tudalennau 2-3).
- d. Amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn annigonol, yn benodol:
- i. Mae colli cyllid wedi ei glustnodi ar gyfer plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn arwain at golli arbenigedd, ac nid oes gofyniad i ganolbwyntio ar gynorthwyo ag anghenion plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan eu gwneud yn agored i achosion o dorri hawliau ([Cyflwyniad 24](#), t. 8-10)
 - ii. Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd â'r cyrhaeddiad addysgol isaf ym mhob cam o addysg orfodol. Datgelir anghydraddoldebau pellach o ran cyrhaeddiad pan ddadelfennir y data rhwng plant Sipsiwn/Roma a phlant Teithwyr Gwyddelig ([Cyflwyniad 24](#), t. 8-10).
 - iii. Mae data wedi ei ddadelfennu ar EAL hefyd yn tynnu sylw at effaith gymhleth arall anghydraddoldeb ([Cyflwyniad 39](#), t. 2-3).
 - iv. Plant Sipsiwn/Roma sydd â'r cyfraddau gwahardd parhaol uchaf, ac mae plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymysg y rhai sydd â'r cyfraddau uchaf o eithrio ([Cyflwyniad 24](#), tudalennau 8-10).
- e. Yr angen i weithredu deddfau cydraddoldeb yn briodol a diogelu disgyblion Trawsryweddol yn yr ysgol yn ddigonol ([Cyflwyniad 6](#), t. 3).
- f. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn destun sy'n ennyn gwahanol safbwyntiau, yn enwedig mewn perthynas ag eithriadau ar sail crefydd a hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o ddisbarthiadau neu ofyn am addysgu sy'n gyson â'u hargyhoeddiadau crefyddol. Gwahoddir y Pwyllgor i roi arweiniad i'r Wladwriaeth sy'n Barti ynghylch lle mae modd taro ar gydbwysedd er mwyn gwarantu hawliau'n llawn o dan y Cyfamod ([Cyflwyniad 15](#), t. 1 a Chyflwyniad 60, Dyfyniad 6 Atodiad 3).
39. Camwahaniaethu o ran mynediad at addysg mewn Addysg Uwch, gan gynnwys:
- a. Mae cyrhaeddiad addysgol a mynediad at addysg uwch yn cael eu cuddio gan ddata nad ydynt wedi eu dadgyfuno. Er enghraifft, gall canran y bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig sy'n mynd i brifysgol fod yn uwch yn ystadegol o'i gymharu â phobl ifanc Gwyn Prydeinig yn ôl y Wladwriaeth sy'n Barti, paragraff 166) ond pan fydd y data'n cael ei ddadansoddi, mae'n datgelu bod y prifysgolion y mae grwpiau lleiafrifol yn eu cyrraedd yn sefydliadau tariff is ar lefel anghymesur ([Cyflwyniad 39](#), t. 2).
 - b. Mae cost uchel addysg brifysgol yn dal yn broblem. Mae'n bosibl nad yw'r Wladwriaeth sy'n Barti wedi cynyddu ffoedd, ond mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r

system benthyciadau cymorth i fyfyrwyr, y rhagwelir y byddant yn cael effaith negyddol anghymesur ar enillwyr isel i ganolig. Nid yw'r camau a gymerir gan y Wladwriaeth sy'n Barti yn ymddangos yn gyson â gwireddu'r hawl lawn i addysg, a gwneud hynny'n rhydd rhag gwahaniaethu ([Save the Student](#)).

- c. Mae mynediad pobl ifanc sy'n ceisio lloches yn cael ei effeithio'n benodol gan gost addysg uwch a chyfyngiadau ar yr hawl i weithio, ynghyd â'r angen am fwy o gymorth drwy ysgoloriaethau ([Cyflwyniad 3](#), t. 2).

40. Nodir materion sy'n ymwneud ag addysg oedolion, fel:

- a. Mae colli Cronfa Ddysgu'r Undebau Llafur yn Lloegr yn 2021 yn cael effaith ar weithwyr, gan gynnwys gweithwyr sy'n cael cyflog isel a gweithwyr mudol, mynediad at addysg - nid yw sgiliau allweddol fel llythrennedd, rhifedd ac ESOL, a sgiliau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith a gefnogwyd yn y gorffennol, ar gael mwyach. Ystyriwyd bod y gronfa'n darparu llwybr hygyrch ac urddasol at addysg gyda chymorth gan gymheiriaid yn y gweithle ([Cyflwyniad 40](#), t. 1).
- b. Gostyngiad o 47% mewn buddsoddiad mewn addysg oedolion (ac eithrio prentisiaethau) rhwng 2009/10 a 2018/19. Dywedir bod yr anallu i gael gafael ar gyfleoedd dysgu cefnogol sy'n rhydd o stigma a theimladau o annigonolrwydd yn gysylltiedig â chyfleoedd cyflogaeth ([Cyflwyniad 22](#), t. 8).

41. Mae tystiolaeth yn nodi effeithiau cydraddoldeb ar yr hawl i addysg yng Nghymru, tra gall y materion a nodir hefyd fod yn berthnasol i Loegr. Mae tystiolaeth benodol yn tynnu sylw at faterion yng Nghymru yng nghyswllt:

- a. Gweithredu datblygiadau cwricwlwm cadarnhaol yng Nghymru i gynorthwyo plant a phobl ifanc i wireddu eu hawl i addysg fel 'dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd' yn cael eu tanseilio gan yr argyfwng costau byw ([Cyflwyniad 3](#), t. 2).
- b. Gallu teuluoedd ar incwm isel i wella cyfleoedd dysgu eu plant yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ôl ysgol ([Cyflwyniad 3](#), t. 2).

- c. Er bod mesurau cadarnhaol wedi cael eu mabwysiadu - er enghraifft, dysgu am dreftadaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth ethnig Cymru a'r byd ehangach fel elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru, mae pryderon yn parhau ynghylch anghydraddoldeb hiliol yn y system addysg. Mae ymchwil a gynhaliwyd yng Nghymru yn tynnu sylw at y graddau mae disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn profi bwlio ar sail hil/hunaniaeth (mewn gweithdai a hwylusir gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, dywedodd 85% o ddisgyblion eu bod wedi profi hiliaeth yn yr ysgol neu'r gymuned), eu diffyg hyder mewn athrawon i fynd i'r afael â'r mater, a hyfforddiant a chefnogaeth briodol i athrawon i sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol ac yn gadarn â hiliaeth ac islamoffobia ([Cyflwyniad 10](#), t. 6).
- d. Diffyg systemau o gofnodi bwlio ac ymddygiad gwahaniaethol yn yr ysgol, gydag arolygiaeth addysg Cymru, Estyn, yn canfod mai dim ond lleiafrif o ysgolion yng Nghymru sy'n cadw cofnodion defnyddiol am fwlio, sy'n golygu bod risg o fwlio adrodd a digwyddiadau hiliol yn cael eu cofnodi ([Cyflwyniad 10](#), t. 7).

Cwestiynau Arfaethedig:

- a. O ran gwahaniaethu a hiliaeth strwythurol yn y system addysg, esboniwch y camau a gymerwyd i:
 - i. Fynd i'r afael â chynrychiolaeth ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ac yn y sector.
 - ii. Sicrhau cyfle a disgwyliadau cyfartal, gan gynnwys monitro effaith diffyg cyllid wedi ei neilltuo a mynediad teuluoedd ar incwm isel at weithgareddau addysgol yng nghydestun yr argyfwng o ran costau byw.
 - iii. Lleihau'r defnydd o archwiliadau cyrff noeth o blant yn yr amgylchedd addysgol.
 - iv. Gwarantu hawl i addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, gan gynnwys cyfle cyfartal i gael mynediad at y cwricwlwm.
 - v. Mynd i'r afael â bwlio gwahaniaethol mewn ysgolion? Pa hyfforddiant a ddarperir i athrawon? Pa systemau sydd ar gael i gofnodi achosion o fwlio gwahaniaethol mewn ysgolion?

- b. Mewn perthynas â gwahardd o'r ysgol, esboniwch os gwelwch yn dda:
- i. Y camau i fynd i'r afael ag effaith anghymesur gwaharddiadau ar grwpiau penodol o blant.
 - ii. Mesurau a fabwysiadwyd i ddarparu cymorth i blant sydd mewn perygl anghymesur o gael eu gwahardd.
 - iii. Camau rhagweithiol a gymerwyd i gynorthwyo ysgolion i osgoi gwaharddiadau a rhoi manylion y sancsiynau a ddefnyddir ynghylch camddefnyddio gwaharddiadau gan ysgolion.
 - iv. Y mecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod hawl plant i addysg yn cael ei hamddiffyn gan broses deg, annibynnol a hygyrch ar gyfer herio gwaharddiadau annheg.
- c. A yw'r Wladwriaeth sy'n Barti yn casglu data am gyrhaeddiad addysgol Saesneg fel laith Ychwanegol? Os felly, a yw'r data hwn hefyd yn cael ei gasglu drwy gyfeirio at nodweddion gwarchoddedig? Os felly, a wnewch chi ddarparu'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor. Os nad ydyw, eglurwch pam nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu.
- d. Nodwch fanylion y mesurau cymorth sydd ar waith sy'n sicrhau hawl pobl ifanc i fanteisio ar addysg uwch, yn enwedig o ran cael gwared a y rhwystrau i bobl ifanc ar incwm isel a phobl ifanc sy'n ceisio lloches.
- e. A gynhaliwyd asesiad effaith cyn cael gwared ar Gronfa Ddysgu'r Undebau Llafur yn Lloegr? Eglurwch sut mae'r Wladwriaeth sy'n Barti wedi sicrhau bod yr hawl i addysg i oedolion sydd wedi elwa o'r gronfa, gan gynnwys cyfle cyfartal, wedi ei sicrhau ers ei dileu.

Atodiad 1: Cyd-lofnodwyr y cyflwyniad

Mae'r cyflwyniad hwn yn canolbwyntio ar yr hawliau a amlinellir gan ICESCR a'r ffordd y cânt eu gwireddu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyflwyniad hwn wedi'i gydlofnodi gan 48 o sefydliadau cymdeithas sifil ledled y DU, yn ogystal â'i gymeradwyo gan 12 o sefydliadau eraill hefyd. Mae ICESCR yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau a materion, ac er nad yw pob un o'r sefydliadau hyn yn gweithio ym mhob maes nac o reidrwydd yn cefnogi'r holl gynnwys penodol, maent yn parhau i gefnogi'r adroddiad yn gyffredinol.

Amnesty International UK	Fairer Future
Asylum Matters	Friends, Families and Travellers
ATD Fourth World	Gypsies and Travellers Wales
Bakers Food and Allied Workers Union	Institute for Employment Rights
Black Equity Organisation	Jackie Jones, Cardiff University & Bristol University
Bevan Foundation	Just for Kids Law
Black South West Network	Lawyers Against Poverty
British Association of Social Workers, Cymru	North East Child Poverty Commission
CEDAW People's Tribunal	Observatory on Human Rights of Children Project 17
Central England Law Centre and Warwick University - Strategic Social Justice Clinic	Race Council Cymru
Child Poverty Action Group	Race Equality First
Children in Wales	Rachel Parker, University of Leeds
Children's Legal Centre Wales	Refugee Action
Children's Rights Alliance for England	Refugee Council
Citizens Advice Newcastle	Sheppey is Ours!
Community Led Action and Savings Support	Tai Pawb
Compass	The Challenging Behaviour Foundation
Crisis	The Equality Trust
Cytun - Churches together in Wales	TransActual UK
Diverse Cymru	UNISON
Doctors of the World UK	Prof Monica Lakhanpaul, UCL
Dr Luke D. Graham, University of Manchester Law School	Wales Assembly of Women
European Network on Statelessness	Women's Equality Network Wales
	York Human Rights City Network

Cymeradwywyr eraill

4in10 London's Child Poverty Network	Independent Food Aid Network
Asylum Support and Immigration Resource Team	LGBT+ Consortium
Difference North East	Mermaids
Disability Rights UK	Northern Ireland Council for Racial Equality
Disabled People Against Cuts	The Aldingbourne Trust
Hull Sisters	The Food Foundation

Atodiad 2: Sefydliadau ac unigolion a gyflwynodd dystiolaeth

Cyflwyniadau ysgrifenedig

- | | | | |
|---------|--|---------|--|
| SUB 1. | York Human Rights City Network | b. | Business & Human Rights |
| SUB 2. | Women's Budget Group | SUB 21. | Gypsies & Travellers Wales |
| SUB 3. | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru | SUB 22. | Greater Manchester Poverty Action |
| SUB 4. | Prifysgol Warwick - Clinig Cyfiawnder Cymdeithasol Strategol | SUB 23. | Greater Manchester Disabled People's Panel |
| SUB 5. | UNSAIN | SUB 24. | Friends, Families & Travellers |
| SUB 6. | TransActual UK | SUB 25. | European Network on Statelessness |
| SUB 7. | The Right to Clothing Campaign | SUB 26. | The Equality Trust |
| a. | Cyflwyniad Cyntaf | SUB 27. | Doctors of the World UK |
| b. | Ail Gyflwyniad | SUB 28. | Disability Rights UK |
| SUB 8. | René Cassin, the Jewish voice for human rights | SUB 29. | Crisis |
| SUB 9. | Y Cyngor Ffoaduriaid | SUB 30. | DOSBARTH |
| SUB 10. | Race Equality First | a. | Dogfen A |
| SUB 11. | Project 17 | b. | Dogfen B |
| SUB 12. | Pregnant Then Screwed | c. | Dogfen C |
| SUB 13. | Rachel Parker, Ymchwilydd PhD, Prifysgol Leeds | SUB 31. | Andrew Chubb, Prifysgol Caerhirfryn |
| SUB 14. | Comisiwn Tlodi Plant Gogledd Ddwyrain Lloegr | SUB 32. | Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant |
| SUB 15. | National Secular Society | SUB 33. | The Champions Project |
| SUB 16. | London TravelWatch | SUB 34. | The Challenging Behaviour Foundation |
| SUB 17. | Lift the Ban Campaign | SUB 35. | Central England Law Centre |
| SUB 18. | Lawyers Against Poverty | SUB 36. | Sefydliad Hawliau Dynol Prydain |
| a. | Dim Hawl i Gyllid Cyhoeddus | SUB 37. | Black South West Network |
| b. | Vaccine Equity | SUB 38. | Black Equity Organisation |
| SUB 19. | Just for Kids Law/ Children's Rights Alliance for England | SUB 39. | The Bell Foundation |
| SUB 20. | The Institute of Employment Rights | SUB 40. | Undeb y Gweithwyr Becws, Bwyd a Perthynol |
| a. | Trade Union Rights | SUB 41. | Asylum Matters |
| | | SUB 42. | Age UK |
| | | SUB 43. | Tax Justice UK |

Cyfranogwyr a gyflwynodd gyflwyniadau llafar

- | | | | |
|---------|--|---------|---|
| SUB 44. | Wales Assembly for Women | SUB 55. | Food Sense Wales |
| SUB 45. | Tai Pawb | SUB 56. | Fairer Future |
| SUB 46. | Shelter Cymru | SUB 57. | Diverse Cymru |
| SUB 47. | Achub y Plant | SUB 58. | Dinas Noddfa Cymru |
| SUB 48. | Race Equality First | SUB 59. | Citizen's Advice Newcastle |
| SUB 49. | Oxfam | SUB 60. | Cytûn-Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| SUB 50. | The Kids Network | SUB 61. | Undeb Gweithwyr Becws, Bwyd a Perthynol |
| SUB 51. | Hull Sisters | SUB 62. | ATD Fourth World |
| SUB 52. | Yr Athro Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe | SUB 63. | The Association of Panel Members |
| SUB 53. | Gypsies and Travellers Wales | SUB 64. | Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Unedig |
| SUB 54. | Greater Manchester Disabled People's Panel | SUB 65. | Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Unedig |

Gwnaed cyflwyniadau hefyd gan unigolion yn bersonol.

Cydnabyddiaeth

Cafodd y cyflwyniad hwn ei ddrafftio gan Kate Ewing sy'n dymuno cydnabod a diolch o waelod calon i aelodau Grŵp Llywio'r prosiect a thîm Just Fair am eu cyfraniadau a'u sylwadau defnyddiol ar ddrafftiau cynharach.

Grwpiau Llywio: Kudsia Batool, Pennaeth Cydraddoldebau a Strategaeth, Cyngres yr Undebau Llafur; Ele Hicks, Rheolwr Ymgysylltu, Ymchwil, Polisi a Dylanwadu, Diverse Cymru; Allan Hogarth, Pennaeth Eiriolaeth a Rhaglenni, Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Unedig; Yr Athro Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe; Tansy Hutchinson, Pennaeth Polisi, Equally Ours; a'r Athro Aoife Nolan, y Ganolfan Cyfraith Hawliau Dynol, Prifysgol Nottingham.

Just Fair: Jamie Burton KC, Cyd-sylfaenydd a Chadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr a bargyfreithiwr Just Fair yn Doughty Street Chambers; Alex Firth, Swyddog Ymchwil a Chyfathrebu; Helen Flynn, Pennaeth Polisi, Ymchwil ac Ymgyrchoedd; a Jess McQuail, Cyfarwyddwr.

Atodiad 3: Dyfyniadau o dystiolaeth lafar

1. Yn dechnegol, nid yw llawer o deuluoedd yn dod dan y llinell dlodi, felly nid ydynt yn cael cymorth ariannol, ond maent yn byw mewn amgylchiadau lle mae'n anodd ffynnu. Maent yn cael eu cadw mewn tlodi yn systematig.

The Kids Network

2. Mae'r sefyllfa y mae pobl ynnddi yn eu llethu. Tlodi ym maes hylendid, anghenion iechyd mislif, mae angen cefnogi'r rhain i gyd. Rydym yn dibynnu'n fawr ar roddion, ond bydd rhoddion yn gostwng gan nad yw pobl yn gallu fforddio rhoi.

Mae gennych bobl sy'n byw ar lai na £40 yr wythnos. Sut ydych chi'n ymdopi â chwyddiant cynyddol a chostau byw os ydych chi'n cael llai na £40 yr wythnos?

Hull Sisters

3. Mae storm berffaith i bobl anabl, yn enwedig y rhai sy'n wynebu mathau eraill o wahaniaethu hefyd. Rydym yn ceisio codi'r pwynt bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb, ond mae pobl anabl yn ei deimlo'n fawr.

Greater Manchester Disabled People's Panel

4. Byddai'n dda gallu rhannu taliadau rhwng dau hawlydd, sy'n bwysig i fenywod ac yn enwedig lle gallai cam-drin domestig ddigwydd.

Fairer Future

5. Ein pryder mwyaf yw nad oes gan bobl ddigon o arian i fyw. Roedd un enghraifft o fam leol i ddau a oedd yn methu fforddio talu am y tocyn bws i'w chanolfan waith leol yn ogystal â bwydo ei phlant, dewisodd fwydo ei phlant a cholli ei hapwyntiad yn y ganolfan waith. O ganlyniad, cafodd ei sancsiynu, sy'n golygu bod ganddi hyd yn oed lai o arian y mis i ymdopi neu i roi bwyd ar y bwrdd. Cafodd ei rhoi mewn sefyllfa amhosibl.

Canolfan Cyngor ar Bopeth Newcastle

6. Un o'r pethau mae Llywodraeth [Cymru] wedi ei wneud yn ddiweddar yw dileu'r hawl i rieni dynnu'n ôl, a oedd yn gallu dewis yn flaenorol a oeddent eisiau i'w plant gymryd rhan mewn Addysg Grefyddol neu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb - sef y term a ddefnyddir yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn honni nad yw'r hawl yn cael ei thorri gan fod gan rieni'r hawl i addysgu eu plant beth bynnag yr hoffent yn eu cartrefi eu hunain, ond nid yw'r confensiynau yn nodi bod yr hawl i fagu plant yn unol â'u credoau crefyddol neu athronyddol eu hunain wedi ei chyfyngu i'r cartref, mae'r confensiynau mewn termau mwy cyffredinol.

Cytûn-Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

7. Rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar yr hawl i fwyd. Y llynedd, cynhaliwyd arolwg ar fynediad at fwyd maethlon ar gyfer ein haelodau yn ystod y pandemig. Mae'r rhain yn cynrychioli'r bobl sy'n danfon, yn gweini ac yn gwneud bwyd, a dywedodd 40 y cant ohonynt eu bod yn rhedeg allan o fwyd rhwng sieciau cyflog. Roedd 1 o bob 5 yn gorfod dibynnu ar ffrindiau a theulu am fwyd. Roedd 35% yn bwyta llai fel rhiant neu ofalwr. Roedd tua 7 y cant yn gwbl ddibynnol ar fanciau bwyd.

[Ers hynny] mae prisiau wedi codi, ond nid yw cyflogau ein haelodau wedi gwella.

Undeb y Gweithwyr Becws, Bwyd a Perthynol

8. Y drefn arferol ar gyfer Credyd Cynhwysol yw un taliad i'r aelwyd gyfan sy'n achosi problemau mewn achosion o drais domestig a gallai arwain at gyfyngiadau ar ymreolaeth economaidd menywod.

Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Unedig



just**fair**

c/o Doughty Street Chambers,
54 Doughty Street,
London, WC1N 2LS
www.justfair.org.uk

Send an email

Info@justfair.org.uk

Follow us on Twitter

[@JustFairUK](https://twitter.com/JustFairUK)

Like us on Facebook

[JustFairUK](https://www.facebook.com/JustFairUK)

Registered as Economic, Social and Cultural Rights in the UK
Charity number: 1141484
Company number: 07394478